Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil cymdeithasol: 72/2026

Dyddiad cyhoeddi: 14/07/2026

# Gwerthusiad o weithgareddau Ewros y Menywod 2025 a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-661-1

Gwerthusiad o weithgareddau Ewros y Menywod 2025 a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru

Awduron: Martin Jones, Hefin Thomas, Jennifer Lane a Kara Stedman. Cwmni ymchwil Arad

Adroddiad Ymchwil Llawn: Jones, M. Thomas, H. Lane, J. Stedman, K. (2026). Gwerthusiad o weithgareddau Ewros y Menywod 2025 a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 72/2026.

Ar gael trwy droi at: Ystadegau ac ymchwil | Cyhoeddwyd | LLYW.CYMRU

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Yr Is-adran Chwaraeon

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

sportdivision@gov.wales

## Cynnwys


1. Cyflwyniad a chefndir ..... 5
   1.1. Amcanion y gwerthusiad ..... 5
   1.2. Cefndir y gweithgareddau a ariannwyd ..... 5
   1.3. Methodoleg ..... 6
2. Cynllunio'r gweithgareddau a'u rhoi ar waith ..... 7
   2.1. Partneriaeth 'Tîm Cymru' ..... 7
   2.2. Cynllun y gronfa cymorth i bartneriaid (PSF) ..... 8
   2.3. Rôl y Grŵp Llywio ..... 9
   2.4. Ymgyrch farchnata ..... 10
   2.5. Hyrwyddo gwerthoedd Cymreig ..... 11
   2.6. Gweithgareddau rhyngwladol ..... 12
   2.7. Cyllid ..... 13
3. Allbynnau, canlyniadau ac effaith ..... 15
   3.1. Allbynnau prosiect y Gronfa Cymorth i Bartneriaid ..... 15
   3.2. Allbynnau'r ymgyrch farchnata ..... 18
      3.2.1. Cyfryngau Darlledu a Digidol ..... 18
      3.2.2. Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyswllt â'r Cyfryngau ..... 19
      3.2.3. Gweithgareddau yn ystod digwyddiadau a hysbysebu awyr agored ..... 19
      3.2.4. Ymgyrch Ddigidol y Talwyd Amdani ..... 20
   3.3. Proffil, argraffiadau a pha mor weladwy oedd Cymru ..... 20
      3.3.1. Ymweliadau gweinidogol a gweithgareddau ymgysylltu rhyngwladol eraill ..... 21
   3.4. Cyfranogi ac ymgysylltu ..... 22
   3.5. Partneriaethau ..... 24
4. Gwaddol ..... 26
   4.1. Cynnal y gwaddol ..... 26
   4.2. Pwysigrwydd gweithgareddau diwylliannol a'r celfyddydau wrth gynnal effeithiau ..... 28
   4.3. Yr effaith ar sefydliadau ac artistiaid a oedd wedi cymryd rhan ..... 28
5. Casgliadau ..... 29
   5.1. Cynllunio a rhoi'r gweithgareddau ar waith ..... 29
   5.2. Allbynnau, canlyniadau ac effaith ..... 30

5.3. Gwaddol ....................................................................................................31
6. Argymhellion ....................................................................................................32

Atodiad A Crynodeb o brosiectau PSF ....................................................................33

**Tablau**

Tabl 1: Cyfansymiau ar draws yr 16 prosiect PSF o ran targedau DPA yn erbyn DPAion a gyflawnwyd yn 2025 .......... 17

# 1. Cyflwyniad a chefndir

Comisiynwyd cwmni ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o’i rhaglen o weithgareddau i hyrwyddo Cymru fel rhan o Bencampwriaeth Ewropeaidd y Menywod UEFA 2025 (Ewros y Menywod). Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau’r gwerthusiad.

## 1.1. Amcanion y gwerthusiad

Roedd prif amcanion y gwerthusiad fel a ganlyn:

- asesu aliniad yr hyn a gyflawnwyd gyda nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ystod o weithgareddau ac amcanion polisi strategol eraill
- asesu i ba raddau y llwyddodd y gweithgareddau a gefnogwyd i gyflawni’r hyn a fwriadwyd
- asesu, cyn belled ag y bo modd, cyfraniad y gweithgareddau a gyflawnwyd tuag at amcanion cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer Ewros y Menywod 2025
- cynnig argymhellion a gwersi a ddysgwyd ar gyfer cyfleoedd posibl yn y dyfodol

## 1.2. Cefndir y gweithgareddau a ariannwyd

Ar ôl i dîm pêl-droed menywod Cymru lwyddo i gyrraedd Pencampwriaeth Ewropeaidd y Menywod UEFA yn y Swistir, roedd Llywodraeth Cymru yn dymuno manteisio’n llawn ar y cyfleoedd a’r manteision a fyddai’n deillio o gyfranogiad y tîm. Roedd proffil y digwyddiad yn cynrychioli cyfle marchnata a diplomataidd sylweddol i Lywodraeth Cymru ym maes chwaraeon.

Roedd amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer ei rhaglen o weithgareddau a oedd yn ymwneud ag Ewros y Menywod fel a ganlyn:

- hyrwyddo Cymru i gynulleidfa fyd-eang
- cyfleu gwerthoedd Cymru, yn enwedig ynghylch cydraddoldeb a chynhwysiant
- hyrwyddo chwaraeon i fenywod ac annog mwy o gyfranogiad, a sicrhau gwaddol o’r gystadleuaeth

Roedd y gweithgareddau a ariannwyd yn cynnwys:

1) **Cronfa Cymorth i Bartneriaid (PSF) gwerth £1m,** a oedd ar gael i sefydliadau chwaraeon, diwylliant, creadigol ac addysg i gynnal gweithgareddau er mwyn dathlu Cymru yn yr Ewros. Roedd modd i bartneriaid wneud cais am gymorth trwy broses grant. Llwyddodd 16 partner i sicrhau cyllid. Un o ddibenion y grant oedd sicrhau

gwaddol o’r Ewros a fyddai’n ysbrydoli’r genhedlaeth nesaf o fechgyn a merched, gan annog cynnydd mewn lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon er mwyn cefnogi iechyd a lles y genedl.

2) **Ymgyrch farchnata a oedd yn werth £300,000**, dan arweiniad Brand Cymru Wales, i arddangos y genedl ar y llwyfan byd-eang. Defnyddiwyd hwn ar gyfer ymgyrch farchnata ddigidol, cymdeithasol a hysbysebu awyr agored wedi’i dargedu, mewn marchnadoedd allweddol (yn bennaf yn Ffrainc, yr Iseldiroedd, y Swistir a’r Almaen) a gweithgareddau wedi’u targedu, gan ddefnyddio llysgenhadon Lleisiau Cymru, i ymgysylltu â’r cyfryngau yn y marchnadoedd targed.

3) Rhaglen o weithgareddau yn seiliedig ar **broses ymgysylltu gweinidogol** yn y bencampwriaeth, er mwyn gwneud y gorau o’r gwaith ymgysylltu diplomataidd, yn ogystal â chyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau economaidd, chwaraeon a diwylliannol. Cost y rhaglen hon o weithgareddau oedd tua £35,000.

## 1.3. Methodoleg

Roedd y fethodoleg ar gyfer y gwerthusiad yn cynnwys cyfuniad o gyfweliadau ansoddol ac ymchwil desg. Roedd hyn yn cynnwys:

- datblygu fframwaith gwerthuso, a oedd yn mapio prif themâu’r gwaith ymchwil yn erbyn y ffynonellau tystiolaeth a’r offerynnau ymchwil a ddefnyddiwyd er mwyn casglu data
- cyfweliadau gydag 20 o randdeiliaid gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr Llysgenhadaeth Prydain yn y Swistir, Cenhadon Lleisiau Cymru, Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC), Chwaraeon Cymru a phartneriaid PSF
- Adolygu dogfennaeth a data, gan gynnwys:
  - data monitro PSF ac adroddiadau cwblhau’r prosiect
  - data a gasglwyd yn erbyn fframwaith mesur marchnata Llywodraeth Cymru

Mae’n bwysig cydnabod rhai o gyfyngiadau’r fethodoleg ar gyfer y gwerthusiad. Roedd y gwaith ymchwil yn casglu tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau a fu’n ymwneud â’r gwaith o gynllunio a darparu gweithgareddau. Nid oedd hi’n ymarferol casglu tystiolaeth gan y sawl a fynychodd ddigwyddiadau neu a oedd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau, oherwydd amseriad y gwerthusiad 9 mis ar ôl i’r gweithgareddau gael eu darparu. Lliniarwyd y cyfyngiad hwn trwy ofyn i bartneriaid fyfyrio ar y rhaglen ehangach o ddigwyddiadau a gweithgareddau a ddarparwyd gan bartneriaid eraill, yn ogystal â chasglu eu safbwyntiau am eu gweithgareddau eu hunain. Nid oedd hi’n ymarferol cyfweld holl bartneriaid y PSF yn ystod y gwerthusiad oherwydd yr amseru a’r gyllideb; lliniarwyd hyn trwy adolygu’r dystiolaeth o’r holl ddata monitro ac adroddiadau cwblhau’r prosiect. Ni ystyrir bod y cyfyngiadau hyn wedi cael effaith arwyddocaol ar y gwerthusiad.

# 2. Cynllunio'r gweithgareddau a'u rhoi ar waith

Mae'r bennod hon yn nodi'r canfyddiadau mewn perthynas â chynllunio a rhoi'r gweithgareddau a ariannwyd ar waith, y dull 'Tîm Cymru' o gydweithio fel partneriaeth, a rôl y Grŵp Llywio. Mae hefyd yn cyflwyno safbwyntiau ynghylch y cyllid oedd ar gael ar gyfer y gweithgareddau a sut wnaeth y gweithgareddau gefnogi'r amcanion sef hyrwyddo gwerthoedd Cymru a chwaraeon menywod.

## 2.1. Partneriaeth 'Tîm Cymru'

Datblygodd Llywodraeth Cymru'r dull 'Tîm Cymru', sef dull a ddatblygwyd ar gyfer y gweithgareddau a ariannwyd gan y Llywodraeth mewn perthynas â Chwpan y Byd 2022 y Dynion yn Qatar, ymhellach i gynllunio a darparu gweithgareddau yn ymwneud ag Ewros y Menywod. Nodwyd manteision cydweithio'n agos gyda rhanddeiliaid, megis CBDC, Llysgenhadaeth Prydain yn Qatar ac amrywiaeth o bartneriaid yn y sectorau chwaraeon a diwylliannol, yn adroddiad Gwerthusiad o Weithgareddau Cwpan y Byd a ariennir gan Lywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2023). Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod y model hwn o weithio yn cynnig fframwaith ar gyfer cynllunio a darparu ystod tebyg o weithgareddau cyn, yn ystod ac ar ôl Ewros y Menywod 2025.

Ar ôl i dîm Cymru ennill ei le yn Ewros y Menywod ym mis Rhagfyr 2024, cychwynnodd Llywodraeth Cymru ar y broses o greu Grŵp Llywio, gan ddatblygu'r perthnasoedd a sefydlwyd gyda CBDC, darlledwyr a phartneriaid eraill yn 2022, ac ymgysylltu â phartneriaid newydd megis Llysgenhadaeth Prydain yn y Swistir.

Nododd rhan fwyaf y rhanddeiliaid a gyfwelwyd bod y ffaith bod ansicrwydd a fyddai tîm Cymru yn cyrraedd y rowndiau terfynol ai beidio nes y gemau ail gyfle ym mis Rhagfyr, wedi gosod heriau cychwynnol o ran cynllunio a threfnu'r gweithgareddau. Er bod rhai rhanddeiliaid yn cydnabod y byddai hyn yn cyfyngu ar nifer y trafodaethau y byddai modd iddynt gael eu cynnal cyn y bencampwriaeth, roeddent er hyn yn teimlo bod y perthnasoedd a'r dulliau o weithredu a sefydlwyd yn 2022 yn cynnig fframwaith buddiol y byddai modd ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cynllunio gweithgareddau Ewros y Menywod yn 2025.

> "Nid oedd angen dechrau o'r dechrau unwaith eto, yn enwedig o ystyried yr amserlenni byr. Roedd hi'n synhwyrol datblygu'r hyn yr ydym yn gwybod sy'n gweithio'n dda – mae cryn dipyn o wybodaeth sefydliadol wedi cael ei datblygu trwy gyfrwng dull Tîm Cymru. Mae'n batrwm ar gyfer diplomyddiaeth ym maes chwaraeon." Rhanddeiliad

Er bod y gweithgareddau a ddarparwyd yn ystod Cwpan y Byd y Dynion yn 2022 wedi dylanwadu ar y dull o weithredu a fabwysiadwyd ar gyfer Ewros y Menywod, myfyriodd rhanddeiliaid a gyfwelwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn hefyd ar nifer o wahaniaethau pwysig a ddylanwadodd ar y dull o weithredu a fabwysiadwyd yn 2025. Myfyriodd rhai bod y Swistir yn gymharol agos o'i chymharu â Qatar, gan nodi bod hyn wedi hwyluso'r trefniadau teithio a'r logisteg cysylltiedig. Myfyriodd rhai rhanddeiliaid hefyd ar y cyd-destun gwleidyddol gwahanol yn y ddau ddigwyddiad, a'r potensial am bwyslais Ewropeaidd.

Roedd rhanddeiliaid hefyd o’r farn bod y pwyslais ar gyfleu gwerthoedd fel cynwysoldeb ac amrywiaeth yn cyd-fynd yn dda â hyrwyddo cyfranogiad menywod mewn chwaraeon ac ethos Ewros y Menywod.

> “Roedd yr ystod o ddigwyddiadau, cynnwys hyrwyddo a gwaith cyfathrebu (Tîm Cymru) yn dangos ymdrech weithredol i sicrhau cynrychiolaeth gynhwysol. Roedd amrywiaeth y gweithgareddau yn awgrymu bod amrywiaeth yn cael ei drin fel elfen graidd, yn hytrach nag ôl-ystyriaeth.”

## 2.2. Cynllun y gronfa cymorth i bartneriaid (PSF)

Yn ystod trafodaethau cynnar o fewn Llywodraeth Cymru, ac yn dilyn gwaith ymgysylltu gyda phartneriaid, cytunwyd y byddai Cronfa Cymorth i Bartneriaid (PSF) yn cael ei sefydlu, gan ddatblygu a dysgu gwersi o’r dull a fabwysiadwyd ar gyfer Cwpan y Byd y Dynion yn 2022. Cytunwyd y byddai hyn yn cynnwys proses dau gam i sefydliadau fynegi diddordeb a chyflwyno ceisiadau am gyllid. Ymgysylltwyd ag ystod o adrannau Llywodraeth Cymru yn gynnar ynghylch y blaenoriaethau ar gyfer y PSF, a datblygwyd canllawiau i sefydliadau a oedd yn dymuno mynegi eu diddordeb mewn cymryd rhan. Roedd rhanddeiliaid a fu ynghlwm wrth y gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cwpan y Byd y Dynion yn 2022 o’r farn bod y model hwn yn cynnig dull effeithiol ar gyfer Ewros y Menywod.

Lansiwyd y PSF ar 21 Chwefror 2025, a rhoddwyd pythefnos i sefydliadau fynegi diddordeb mewn cymryd rhan, erbyn 7 Mawrth. Aeth Llywodraeth Cymru ati i adolygu’r datganiadau o ddiddordeb hyn o fewn wythnos, gan wahodd sefydliadau llwyddiannus i gyflwyno ceisiadau llawn ar 14 Mawrth, a rhoddwyd terfyn amser o dair wythnos iddynt wneud hynny, sef erbyn 4 Ebrill 2025. Gwnaethpwyd penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru cyn pen pythefnos, gan roi 11 wythnos i’r ymgeiswyr llwyddiannus gynllunio a darparu gweithgareddau cyn gêm agoriadol Cymru ar 5 Gorffennaf.

Yn dilyn y broses ymgeisio, trefnwyd cyfres o weithdai gan Lywodraeth Cymru, gan gynnig cyfle i ymgeiswyr llwyddiannus am gyllid PSF gyfarfod, cyflwyno eu cynlluniau cychwynnol ac adnabod cyfleoedd i gydweithio. Croesawyd y gweithdai hyn gan y partneriaid PSF a gyfwelwyd, gyda rhai yn nodi eu bod wedi cynnig cyfleoedd i osgoi dyblygu a sicrhau bod gweithgareddau partneriaid yn cyd-fynd â’i gilydd.

Fodd bynnag, amlygodd rhai partneriaid y bu’n rhaid i’r weithdai ganolbwyntio ar gyflwyno eu cynlluniau eu hunain yn bennaf, a dysgu am gynlluniau partneriaid eraill, yn hytrach na chynnig cyfleoedd i drafod cyfleoedd cydweithio yn fanylach. Amlygodd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru y ffaith bod holl fanylion cyswllt y partneriaid wedi cael eu rhannu er mwyn cynorthwyo trafodaethau pellach ynghylch cydweithio, a nododd rhai rhanddeiliaid bod trafodaethau ynghylch cydweithio rhwng partneriaid PSF wedi digwydd ar ôl i’r gweithdai hyn gael eu cynnal.

Yn gyffredinol, fe wnaeth rhanddeiliaid groesawu pa mor gyflym y gwnaeth Llywodraeth Cymru sefydlu’r PSF a chymeradwyo prosiectau er mwyn caniatáu cymaint o amser ag yr

oedd modd gwneud i ymgeiswyr llwyddiannus gynllunio a darparu eu gweithgareddau. Fodd bynnag, amlygodd sawl un o'r rhanddeiliaid hefyd yr heriau a grëwyd i rai sefydliadau – yn enwedig sefydliadau llai o faint – gan yr amserlen ar gyfer mynegi diddordeb a gwneud cais i'r PSF, gan nodi nad oedd ganddynt y capasiti i ymateb iddi yn yr amser a oedd ar gael.

Mae tystiolaeth o adroddiadau cwblhau prosiectau PSF a chyfweliadau gydag arweinwyr prosiectau PSF yn dangos mai amseroedd rhagarweiniol byr oedd un o'r prif heriau a wynebwyd wrth gynllunio a darparu eu prosiectau. Adroddodd nifer o sefydliadau y bu'n rhaid iddynt gychwyn ar brosiectau yn syth ar ôl sicrhau cymeradwyaeth o ran y cyllid, ac nad oedd hyn yn gadael fawr iawn o amser ar gyfer gwneud gwaith cynllunio, ymgysylltu na hyrwyddo ychwanegol.

Er bod arweinwyr prosiect PSF yn cydnabod bod yr amserlenni hyn o ganlyniad i'r ffaith bod tîm y Menywod wedi ennill eu lle yn y bencampwriaeth yn hwyr, roedd rhai er hyn wedi amlygu pwysigrwydd cael presenoldeb cynnar, gweladwy a diwylliannol sensitif ar gyfer ymgysylltu â chymunedau, yn enwedig y rhai sy'n cael eu tangynrychioli mewn chwaraeon. Nododd rhai yn benodol bod y rhwystrau diwylliannol hyn yn her benodol wrth ymgysylltu merched â chwaraeon. Pwysleisiont ymhellach bwysigrwydd amser i feithrin ymddiriedaeth mewn cymunedau, er enghraifft gyda phresenoldeb hyfforddwyr a modelau rôl benywaidd a gweithdrefnau diogelu (h.y. cydsyniad, ymgysylltu â rhieni).

## 2.3. Rôl y Grŵp Llywio

Croesawodd yr holl bartneriaid a rhanddeiliaid PSF y cam o greu Grŵp Llywio Rhanddeiliaid y prosiect fel rhan o gynllunio a chyflawni'r gweithgareddau a oedd ynghlwm ag Ewros y Menywod. Ystyriwyd bod y grŵp hwn wedi cynnig trosolwg o'r gweithgareddau ehangach, eglurder ynghylch y cyllid a'r amserlenni, ac aliniad strategol gydag amcanion ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer y gweithgareddau.

Er hyn, adroddodd rhai rhanddeiliaid a phartneriaid PSF y byddai gwaith cydlynu mwy canolog o ran y cyfleoedd i gydweithio trwy'r grŵp hwn wedi cynorthwyo dull gweithredu mwy cyson a chreadigol tuag at gynllunio a darparu ar draws y PSF (a gweithgareddau ehangach Tîm Cymru). Creodd Llywodraeth Cymru galendr wedi'i rannu o weithgareddau[Troednodyn1], a gynlluniwyd i hysbysu partneriaid o gyfleoedd posibl i hyrwyddo gwaith ei gilydd a galluogi cydweithio, a dosbarthwyd hwn i'r holl bartneriaid cyn y bencampwriaeth. Fodd bynnag, nid oedd rhai partneriaid yn cofio gweld yr adnodd canolog hwn ac roedd rhai partneriaid eraill o'r farn nad oedd holl bartneriaid PSF wedi cydweithio i hyrwyddo gwaith ei gilydd ar gyfryngau cymdeithasol.

[1] Mae modd gweld y calendr yma: Datganiad Ysgrifenedig: Tîm Menywod Cymru yn UEFA Ewrop 2025 (4 Gorffennaf 2025)

## 2.4. Ymgyrch farchnata

Roedd y ffaith bod tîm pêl-droed menywod Cymru yn cynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Ewropeaidd y Menywod yn gyfle sylweddol ar gyfer gweithgareddau marchnata a diplomyddiaeth chwaraeon[Troednodyn2] i Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chyfle i greu gwaddol barhaus i Gymru. Roedd yn cynnig llwyfan ar gyfer Brand Cenedl Cymru, gyda'r nod o ysgogi diddordeb yng Nghymru fel cyrchfan. Darparwyd yr ymgyrch farchnata trwy gyfrwng dull gweithredu cydweithredol Tîm Cymru, gan ddwyn ynghyd timau trawslywodraethol, partneriaid diwylliannol, ac asiantaethau allanol, gyda'r nod o gyflwyno hunaniaeth genedlaethol gydlynol ar y llwyfan rhyngwladol. Roedd yr ymgyrch a gyflwynwyd yn integreiddio ymgyrchoedd cysylltiadau cyhoeddus (CC), digidol, teledu a hysbysebu awyr agored, yn ogystal â digwyddiadau a phrofiadau ar draws y Swistir, Ffrainc, yr Almaen a'r Iseldiroedd, gyda chymorth deunyddiau amlieithog.

Roedd yr agwedd ddigidol yn cynnwys dwy ffrwd ymgyrch. Y rhain oedd:

- Brand Cenedl Cymru, a ddarparwyd ar draws yr Almaen, Ffrainc, y Swistir a'r Iseldiroedd
    - Roedd hyn yn canolbwyntio ar gyrraedd cynulleidfaoedd trwy gyfrwng ymgyrchoedd fideo ar draws platfformau Meta (e.e. Instagram, Facebook), YouTube a StackAdapt (platfform hysbysebu aml-sianel sy'n galluogi marchnatawyr i gynllunio a darparu ymgyrchoedd digidol)
- ymgyrch traffig Croeso Cymru, a oedd yn targedu'r Almaen, y Swistir a'r Iseldiroedd
    - Roedd hon yn ail-dargedu unigolion a oedd eisoes wedi ymgysylltu â gweithgareddau Brand Cenedl Cymru, gan geisio trosi ymwybyddiaeth yn draffig i'r wefan trwy gyfeirio defnyddwyr at wefan Croeso Cymru

Roedd y gweithgareddau creadigol a ddarparwyd trwy'r ddwy ymgyrch hon yn cynnwys fideos 15 eiliad a 30 eiliad a addaswyd fel y byddai modd eu defnyddio mewn nifer o gyd-destunau ac ar amrywiaeth o blatfformau (e.e. yn y porthiant ac yn y ffrwd).[Troednodyn 3] Lluniwyd cynnwys a oedd yn cyfuno amryw o themâu a oedd yn ymwneud â phêl-droed, a oedd yn ceisio apelio at gynulleidfaoedd a oedd yn ymgysylltu â chynnwys arall a oedd yn ymwneud ag Ewros y Menywod, gyda negeseuon ehangach ynghylch twristiaeth a Chymru fel cyrchfan. Pan oedd hynny'n bosibl, roedd y cynnwys yn integreiddio chwaraeon ac agweddau eraill ar Gymru; er enghraifft, roedd fideo o un o chwaraewyr Cymru yn chwarae pêl-droed ar draeth yng Nghymru yn rhan o ymgyrch Croeso Cymru.

Pan fo hynny'n berthnasol, defnyddiwyd neu addaswyd deunyddiau cyfryngau a ddefnyddiwyd yn ystod ymgyrchoedd blaenorol, megis fideos, gwaith graffig a delweddau a

---

[2] Datganiad Ysgrifenedig:  EURO Menywod UEFA 2025 (18 Chwefror 2025)
[3] Fel arfer, mae hysbysebion "yn y ffrwd" yn chwarae cyn, yn ystod neu ar ôl fideos y mae defnyddwyr yn gwylio; fel arfer, defnyddir y rhain er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth uniongyrchol o frand. Fel arfer, mae hysbysebion "yn y porthiant" yn ymddangos law yn llaw â chynnwys fideo (e.e. fideos a awgrymir); mae angen i ddefnyddwyr ddewis clicio a gwylio'r rhain, sydd fel arfer yn dynodi mwy o ymgysylltiad.

ddefnyddiwyd yn ystod ymgyrchoedd Dydd Gŵyl Dewi a Chwpan y Byd y Dynion 2022, a datblygwyd cynnwys newydd ar gyfer cyd-destun penodol Ewros y Menywod hefyd. Er enghraifft, addasu cynnwys i dargedu cynulleidfa Ewropeaidd yn hytrach na chynulleidfa fyd-eang a chanolbwyntio ar gyfranogiad mewn chwaraeon menywod.

Lleolwyd tîm CC yn y Swistir i gefnogi'r gwaith ymgysylltu gweinidogol a Lleisiau Cymru, ac er mwyn gallu ymateb i gyfleoedd oedd yn codi yn y cyfryngau. Defnyddiodd ymgyrch farchnata Cymru gyfres o adnoddau a deunyddiau cyffredinol, yr oedd modd i holl bartneriaid Tîm Cymru eu defnyddio, gan geisio sicrhau negeseuon a dulliau cyson ar draws y partneriaid. Roedd yr adnoddau cyffredinol hyn yn cynnwys pecynnau cymorth ar y cyd, fframweithiau ar gyfer creu negeseuon, asedau brand a phalet lliw pwrpasol ar gyfer Ewro 2025.

> "Roedd Cymru'n sefyll mas oherwydd y ffordd holistig y cyflwynwyd ei hunaniaeth – nid chwaraeon yn unig, ond iaith, cerddoriaeth, diwylliant a gwerthoedd. Nid oedd yn ymddangos bod unrhyw genedl arall wedi ymateb i'r bencampwriaeth mewn ffordd integredig fel hon." Rhanddeiliad

Nid oedd y gyllideb ar gyfer yr ymgyrch farchnata yn ddigonol er mwyn cynnwys ffrwd gwaith a oedd yn canolbwyntio ar fasnach a buddsoddi, er y dylid nodi bod yr amcan hwn yn cael ei gefnogi fel rhan o'r rhaglen ymweliadau gweinidogol. Adroddodd rhai rhanddeiliaid y gellid ystyried hyn ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol, law yn llaw â'r ffrydiau gwaith eraill.

## 2.5. Hyrwyddo gwerthoedd Cymreig

Ewros y Menywod oedd y bencampwriaeth gyntaf lle'r oedd y genedl a oedd yn cynnal y bencampwriaeth, dinasoedd ac UEFA wedi cytuno ar ddatganiad hawliau dynol. Gan ymateb i hyn, datblygodd Cyngor Celfyddydau Cymru ddatganiad gwerthoedd wedi'i ddiweddaru, gan ddiweddaru datganiad gwerthoedd tebyg a ddatblygwyd cyn Cwpan y Byd y Dynion yn 2022. Arweiniwyd proses 2025 gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru ac roedd yn cynnwys nifer o bartneriaid Tîm Cymru yn llofnodi'r datganiad gwerthoedd, a oedd yn cynnwys pwyslais ar gyfiawnder, cydraddoldeb a grymuso menywod trwy gyfrwng chwaraeon, diwylliant ac arweinyddiaeth.[Troednodyn4]

> "Gyda'n Gilydd yn Gryfach: Rydyn ni'n dîm a mwy. Rydyn ni'n fudiad dros gyfiawnder, cydraddoldeb a rhoi grym i ferched drwy chwaraeon, diwylliant ac arweinyddiaeth." Datganiad Gwerthoedd Tîm Cymru ar gyfer Ewros y Menywod UEFA 2025

Roedd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn croesawu'r datganiad gwerthoedd a'r ffaith ei fod wedi cael ei fabwysiadu fel dull o weithredu ar y cyd ar draws partneriaid Tîm Cymru. Roedd rhai o'r unigolion a gyfwelwyd yn teimlo, o'i gymharu â 2022, bod mwy o gyfleoedd ar gyfer

[4] Gweler Datganiad Gwerthoedd Tîm Cymru

prosiectau cynhwysol ac a oedd yn seiliedig ar werthoedd, gan ganolbwyntio ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, gan fod Ewros y Menywod yn cyd-fynd mor agos â hyrwyddo cyfranogiad menywod mewn chwaraeon. Roedd rhanddeiliaid yn croesawu pwyslais y prosiectau PSF ar sefydliadau ac artistiaid amrywiol. Mynegwyd sylwadau cadarnhaol gan sawl rhanddeiliad hefyd am ganran uchel y rheolwyr prosiect PSF ac uwch swyddogion ymhlith rhanddeiliaid Tîm Cymru a oedd yn fenywod, gan nodi bod hyn yn gwireddu rhai o'r gwerthoedd a oedd yn cael eu hyrwyddo.

> "Yn ystod y bencampwriaeth, roeddwn yng nghwmni menywod yn bennaf – cydweithwyr, artistiaid, trefnwyr – a oedd yn cynorthwyo, yn dyrchafu ac yn grymuso ei gilydd. Roedd yr amgylchedd hwn yn un anghyfarwydd, ond trawsnewidiol." Arweinydd prosiect PSF

## 2.6. Gweithgareddau rhyngwladol

Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o'r gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd yn y Swistir, ynghyd â gwledydd a dargedwyd megis yr Iseldiroedd, Ffrainc a'r Almaen. Roedd gweithgareddau rhyngwladol wedi eu cynnwys yn yr elfennau ymgysylltu gweinidogol, PSF a marchnata. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys:

- presenoldeb gweinidogol o Gymru mewn dwy o'r gemau
- presenoldeb Gweinidogion ac uwch swyddogion o Gymru yn ystod digwyddiadau diplomataidd a chorfforaethol ar y diwrnodau o gwmpas y gemau
- darparu hyfforddiant y cyfryngau i chwaraewyr tîm cenedlaethol Cymru
- perfformiadau yn yr ardaloedd i Gefnogwyr, gan arddangos artistiaid benywaidd o Gymru (DJs, cerddorion a dawnswyr) i gynulleidfa ryngwladol
- digwyddiad corfforaethol a diwylliannol a gynhaliwyd gan S4C yn Lucerne, yn ogystal â darllediad byw ar y teledu, a oedd yn cynnwys partneriaid Tîm Cymru
- 'taith gerdded i gefnogwyr' a oedd yn cynnwys 8,000 o gefnogwyr o Gymru a'r Iseldiroedd
- gweithgareddau amrywiol a oedd yn gysylltiedig â 'Camperfan Cymru' a bws 'cefnogwyr'
- cenhadon chwaraeon benywaidd 'Fel Merch' yn ymddangos mewn digwyddiad yn y Swistir
- taith gyfnewid i fyfyrwyr benywaidd yn yr Almaen a'r Swistir
- bardd yn teithio gyda thîm Cymru yn y Swistir ac yn cofnodi eu profiadau
- ysgogwyr newid ifanc yn cymryd rhan mewn digwyddiad Hacathon yn y Swistir

- arddangos deunyddiau ymgyrch farchnata yn yr Iseldiroedd, yr Almaen a'r Swistir
- is-lywydd UEFA, Laura McAllister yn rhoi'r araith olaf yn "Unstoppable: Fforwm Gêm Derfynol EWROS y Menywod", gan ategu arwyddocâd cenedlaethol ac effaith ddiwylliannol ymddangosiad cyntaf tîm Cymru yn y bencampwriaeth
- amrywiaeth o weithgareddau gan bartneriaid yn cofnodi ac yn rhannu cynnwys digidol

## 2.7. Cyllid

Cyfanswm y gwariant ar weithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Ewros y Menywod oedd tua £1.335 miliwn. Roedd hwn yn cynnwys:

- tua £1 miliwn ar gyfer yr 16 prosiect PSF
    - roedd gwerth y rhain yn amrywio o £10,000 i £150,000
- £300,000 ar gyfer yr ymgyrch farchnata
- £35,000 ar gyfer y gwaith ymgysylltu gweinidogol

Ni fynegodd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid safbwynt am swm cyffredinol y cyllid a neilltuwyd i weithgareddau, gan nodi eu bod yn canolbwyntio ar ddarparu'r gweithgareddau yr oedden nhw wedi cael cyllid ar eu cyfer. Nododd rhai rhanddeiliaid bod swm y cyllid a neilltuwyd i Ewros y Menywod yn is na'r swm a neilltuwyd i weithgareddau Cwpan y Byd y Dynion yn 2022 (£3.8 miliwn). Roedd rhai rhanddeiliaid yn cydnabod y gallai lleoliad a chyrhaeddiad byd-eang ehangach Cwpan y Byd fod wedi dylanwadu ar hyn, ac mai Ewros y Menywod oedd y rhaglen gyntaf o'r natur hon a oedd wedi cael ei darparu gan Lywodraeth Cymru ar lefel Ewropeaidd.

Roedd arweinwyr prosiect partneriaid PSF a gyfwelwyd yn teimlo, yn gyffredinol, bod y cyllid a neilltuwyd wedi bod yn ddigonol i gyflawni'r gweithgareddau yr oeddent wedi eu cynllunio. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y gallai cyllid ychwanegol fod wedi galluogi mwy o bresenoldeb Cymreig mewn cynadleddau ac uwchgynadleddau a gynhaliwyd yn ystod y bencampwriaeth, neu i fwy o artistiaid berfformio yn y Swistir, fodd bynnag, roeddent yn cydnabod cyfyngiadau ehangach ar y gyllideb. Nododd rhai cynrychiolwyr prosiectau PSF hefyd nad oeddent wedi gallu ymateb mewn ffordd hyblyg i'r diddordeb a'r galw ychwanegol a oedd wedi deillio o'u gweithgareddau (e.e. darparu rhagor o weithgareddau cymunedol) oherwydd yr angen am gyllid grant ychwanegol.

Nododd rhai rhanddeiliaid na fu cyllid digonol ar gael i ddarparu cyfres o weithgareddau a oedd yn ymwneud â masnach a buddsoddi. Roedd yr unigolion hyn yn teimlo y gallai hyn fod wedi bod yn fuddiol o ran y buddion posibl i economi Cymru dros y tymor hwy.

Myfyriodd rhai o'r unigolion a gyfwelwyd ar y trefniadau talu grant, lle'r oedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud ôl-daliadau am weithgareddau a gwblhawyd gan bartneriaid PSF.

Amlygodd arweinwyr PSF a rhai rhanddeiliaid bod y trefniant hwn yn golygu bod angen i bartneriaid wario arian ar ddeunyddiau, staff, teithio ac adnoddau eraill ymlaen llaw, gan dalu'r costau hyn cyn cael eu talu ar ôl cwblhau'r gweithgareddau. Nododd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru bod y trefniadau hyn yn amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfarnu cyllid ar ffurf grantiau, a bod hyn wedi cael ei nodi'n glir yn ystod pob cam o'r broses ymgeisio a'r cynigion dilynol.

Roedd rhanddeiliaid o'r farn y gallai partneriaid PSF mwy o faint reoli'r trefniadau hyn, a'u bod yn gyfarwydd â gweithio yn y fath ffordd. Fodd bynnag, adroddodd y sawl a gyfwelwyd bod rhai sefydliadau llai o faint wedi ei chael hi'n heriol rheoli eu llif arian, yn enwedig oherwydd bod y costau ymlaen llaw yn fwy arwyddocaol iddyn nhw ar lefel gymharol, o'u cymharu â'u trosiant. O ystyried dymuniad Llywodraeth Cymru i ymgysylltu ag ystod eang o sefydliadau ac unigolion, mae hyn yn awgrymu yr angen i ystyried trefniadau amgen posibl yn y dyfodol, pan fo amgylchiadau ac amodau Llywodraeth Cymru yn caniatáu hynny.

> "(Os mai'r nod yw) cynorthwyo sefydliadau cymunedol a llai o faint, a bod yn gynhwysol, byddai'n dda gallu darparu rhywfaint o gyllid ymlaen llaw." Rhanddeiliad

> "Roedd y broses hawlio – gweithio ar sail ad-dalu ar ôl gwario a'r gofyn am lefelau uchel o ddogfennaeth – wedi cymryd cryn dipyn o amser y staff. I sefydliadau mwy o faint, efallai bod modd ymdopi â hyn, ond i ni, roedd wedi rhoi pwysau anghymesur ar dîm bach iawn, ac roedd y faich weinyddol yn hynod o drwm o'i chymharu â maint y prosiect." Arweinydd prosiect PSF

Fel y gwelwyd gyda'r gweithgareddau a gomisiynwyd cyn Cwpan y Byd y Dynion yn 2022, roedd rhai rhanddeiliaid yn cwestiynu a oedd cyfleoedd i wneud rhai penderfyniadau ynghylch y cyllid yn gynharach. Fodd bynnag, roedd eraill yn cydnabod bod yr ansicrwydd ynghylch a fyddai Cymru'n cyrraedd y bencampwriaeth, ynghyd ag amseru hwyr y gemau ail gyfle (Rhagfyr 2024) yn golygu na fyddai hi wedi bod yn ddoeth ymrwymo symiau sylweddol o gyllid, neu godi disgwyliadau o flaen llaw.

# 3. Allbynnau, canlyniadau ac effaith

Mae'r bennod hon yn archwilio'r allbynnau, y canlyniadau a'r effaith a sicrhawyd gan y gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ystyried newidiadau o ran pa mor weladwy oedd Cymru, proffil a'r argraffiadau o Gymru a'i gwerthoedd o ganlyniad i'r gweithgareddau marchnata ehangach, y prosiectau PSF a Lleisiau Cymru, a'r effeithiau diwylliannol ac economaidd a sicrhawyd o ganlyniad.

## 3.1. Allbynnau prosiect y Gronfa Cymorth i Bartneriaid

Gofynnwyd i'r 16 prosiect PSF adrodd am set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAion) ar lefel rhaglen, yr oeddent yn ymwneud â'u hallbynnau a'u cyflawniadau, ar sail canllawiau a roddwyd iddynt gan Lywodraeth Cymru.[Troednodyn 5] Cafodd y data o'r adroddiadau hyn ei gywain fel rhan o'r gwerthusiad hwn, a lle'n briodol, cyfunwyd y ffigurau. Mae'r data monitro a gasglwyd gan brosiectau PSF yn dangos:[Troednodyn 6]

- y cynhaliwyd cyfanswm o **241 o ddigwyddiadau** gan bartneriaid PSF, gyda **33,993 o bobl yn cyfranogi** neu'n mynychu
- bod **6,364 o blant a phobl ifanc** wedi cymryd rhan mewn **gweithgareddau chwaraeon** a gynhaliwyd gan bartneriaid PSF
- bod **136,404 o blant/pobl ifanc** wedi cymryd rhan mewn **digwyddiadau diwylliannol**[Troednodyn 7]
- bod **1,234** o gyfranogwyr wedi cymryd rhan mewn **gweithgareddau hyfforddi**
- y bu **7,111 achos o ymgysylltu ag ysgolion**[Troednodyn 8]
- ariannwyd **saith arddangosfa** trwy gyfrwng y PSF. Roedd hyn yn cynnwys:
    - Pump arddangosfa dros dro ryngweithiol mewn canolfannau cymunedol ar draws Cymru i arddangos teithiau athletwyr benywaidd o Gymru trwy brosiect PSF AfroWales
    - Dwy arddangosfa trwy brosiect 'Cartref Pêl Droed Cymru' S4C, gan gynnwys digwyddiad corfforaethol a oedd yn cynnwys cerddoriaeth, barddoniaeth a

---

[5] Mae'r data hwn yn seiliedig ar ddata monitro a gyflwynwyd gan 15 o'r 16 prosiect PSF o fewn cyfnod y gwerthusiad hwn. Roedd 1 prosiect PSF wedi darparu ychydig ddata, ond nid oedd wedi cyflwyno ei adroddiad cwblhau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Roedd S4C wedi cyflwyno dwy set o DPAion ar gyfer dwy elfen wahanol o'u prosiect. Cyfunwyd ffigurau o'r ddau adroddiad hwn.
[6] Nid oedd pob un o'r 16 prosiect PSF wedi darparu data ynghylch pob un o'r eitemau a restrir yn yr adran hon. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r niferoedd cyffredinol fod wedi bod yn uwch na'r rhai a gyflwynir yma.
[7] Mae hyn yn cynnwys 120,000 o gyfranogwyr o dros 1000 o ysgolion yn Jamborî yr Urdd, a oedd yn cynnwys cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau canu trwy alwad fideo.
[8] Mae hyn yn cynnwys ysgolion yr ymgysylltwyd â nhw trwy ddosbarthu adnoddau ffisegol a disgyblion o dros 1000 o ysgolion yn perfformio mewn gweithgareddau fel Jamborî yr Urdd. Mae'n debygol bod nifer o ysgolion wedi cymryd rhan mewn mwy nag un gweithgaredd gan bartneriaid PSF amrywiol.

straeon gan artistiaid creadigol benywaidd Cymreig, bwyd a diod yn Lucerne, y Swistir a "camperfan cefnogwyr" yn ymweld â'r tair gêm, gan ymgysylltu â chefnogwyr a chael ei defnyddio fel canolbwynt ar gyfer creu cynnwys digidol

- cynhyrchwyd **304 o fideos/ffilmiau byrion** fel rhan o weithgareddau PSF
- arweiniodd yr arddangosfeydd hyn, a gafodd eu hybu gan weithgareddau cyfathrebu a CC Llywodraeth Cymru, at:
    - **26 o erthyglau yn y wasg** yn cael eu cyhoeddi gan bartneriaid PSF, yn ymwneud â'u gweithgareddau
    - **11,476 darn o sylw yn y cyfryngau ar-lein, argraffedig ac ar y teledu**
    - **mynychodd y cyfryngau 108 o ddigwyddiadau**
- llwyddodd partneriaid PSF i sicrhau cyfanswm o **dros 32 miliwn o ran cyrhaeddiad ar gyfryngau cymdeithasol,** yn ymwneud â'u gweithgareddau
    - Roedd y rhain wedi sicrhau **dros 3.4 miliwn o ymgysylltiadau** (e.e. pobl yn eu hoffi, ymatebion, pobl yn eu hailbostio)
    - **Gwyliwyd cynnwys fideo** a bostiwyd gan bartneriaid PSF **dros 18.2 miliwn gwaith**
    - llwyddodd partneriaid PSF i sicrhau **42,725 o ddilynwyr newydd** o ganlyniad i weithgareddau PSF
- **cofnodwyd 33,149 o ymweliadau â chynnwys ar y we** ynghylch gweithgareddau PSF

Roedd prosiectau PSF wedi gosod targedau Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAion) pan oedd hynny'n briodol. Mae'r tabl isod yn dangos y rhagorwyd ar 15 o blith y 16 o dargedau dangosydd, a llwyddwyd i gyflawni'r dangosydd (nifer yr arddangosiadau) a oedd yn weddill.[Troednodyn 9]

[9] Mae'n bwysig nodi nad oedd pob prosiect wedi gosod neu gofnodi targedau ar draws dangosyddion, hyd yn oed ar gyfer dangosyddion lle y cofnodwyd cyflawniadau.

**Tabl 1: Cyfansymiau ar draws yr 16 prosiect PSF o ran targedau DPA yn erbyn DPAion a gyflawnwyd yn 2025**

| DPA | Targed | Cyflawniad |
|---|---:|---:|
| Nifer y digwyddiadau a gefnogwyd | 164 | 241 |
| Nifer y bobl yn y digwyddiadau (cyfanswm) | 9,169 | 33,993 |
| Nifer y plant / pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon | 2,752 | 6,364 |
| Nifer y plant/pobl ifanc yn cymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol | 100,465 | 136,404 |
| Nifer y cyfranogwyr yn ymwneud â hyfforddiant neu weithgareddau hyfforddi | 352 | 1,234 |
| Nifer yr achosion lle y bu ysgolion yn ymwneud â'r prosiect | 3,766 | 4,090 |
| Nifer yr edrychiadau ar dudalennau ar y we sy'n gysylltiedig â phrosiectau | 0 | 33,149 |
| Nifer y fideos/ffilmiau byrion a gynhyrchwyd | 14 | 304 |
| Nifer yr arddangosfeydd a gyflwynwyd | 7 | 7 |
| Nifer yr Erthyglau yn y Wasg | 1 | 26 |
| Nifer y darnau o sylw yn y cyfryngau ar-lein, argraffedig ac ar y teledu | 1 | 11,476 |
| Nifer yr achosion lle y gwelwyd y cyfryngau yn mynychu digwyddiadau | 0 | 108 |
| Cyfanswm cyrhaeddiad y cyfryngau cymdeithasol | 739,000 | 32,396,687 |
| Nifer o weithiau y gwyliwyd fideos | 75000 | 18,229,730 |
| Dilynwyr newydd | 0 | 42,725 |
| Ymgysylltu (argraffiadau, sylwadau, hoffiadau) | 270,000 | 3,438,010 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o adroddiadau cwblhau partneriaid PSF

Yn ogystal, roedd gofyn i brosiectau PSF bennu eu targedau eu hunain ar gyfer prosiectau penodol. Mae tystiolaeth a gyflwynwyd fel rhan o adroddiadau cwblhau y sefydliadau partner yn dangos bod yr holl brosiectau wedi cyflawni mwyafrif helaeth eu targedau, gyda rhai yn cyflawni'r holl dargedau a osodwyd. Mewn sawl achos, roedd partneriaid PSF wedi rhagori ar rai o'r targedau a osodwyd. Ar gyfer y sefydliadau hynny nad oeddent wedi llwyddo i gyflawni rhai targedau, adroddwyd bod hyn o ganlyniad i niferoedd is na'r disgwyl o gyfranogwyr yn ymgysylltu â gweithgareddau. Mewn rhai achosion, nid oedd prosiectau wedi cyflawni'r targedau a osodwyd eto gan bod y rhain yn ymwneud â nodau dros y tymor

hwy, a ystyriwyd yn dargedau oedd yn rhy gynnar i'w mesur, er enghraifft mwy o gyfranogiad mewn chwaraeon a gwelliant o ran iechyd a lles.

## 3.2. Allbynnau'r ymgyrch farchnata

Cyflawnodd yr ymgyrch farchnata ystod eang o allbynnau ar draws aml-sianeli. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- Cyfryngau Digidol ac a Ddarlledir
- Cysylltiadau Cyhoeddus ac Ymgysylltu â'r Cyfryngau
- Hysbysebu awyr agored a Gweithgareddau yn ystod Digwyddiadau [Troednodyn 10]
- Cyfryngau Cymdeithasol

Isod, cyflwynir yr allbynnau sy'n ymwneud â'r holl sianelau hyn.

### 3.2.1. Cyfryngau Darlledu a Digidol

Llwyddodd hysbysebu ar y teledu i gyrraedd 12.2 miliwn o wylwyr ar draws Ffrainc a'r Iseldiroedd trwy 29 o ddarllediadau. Roedd yr ymgyrch ddigidol wedi sicrhau 8 miliwn o argraffiadau, 3.5 miliwn o sesiynau gwylio fideos a 27,000 o ymweliadau â gwefannau, a oedd yn uwch na'r targedau a osodwyd ar draws yr holl farchnadoedd. Isod, nodir yr allbynnau a sicrhawyd ar draws y ddwy ymgyrch.

Llwyddodd ymgyrch Brand Cenedl Cymru i gyflawni'r canlynol:

- 6.4 miliwn o argraffiadau (12% yn uwch na'r hyn a ragwelwyd)
- 2.1 miliwn o sesiynau gwylio fideos (66% yn uwch na'r hyn a ragwelwyd)
- Cost-fesul-gwylio £0.008 (40% yn is na'r swm a ragwelwyd)
- Ar blatfformau Meta (e.e. Facebook, Instagram), llwyddodd yr ymgyrch i sicrhau 1.6 miliwn o sesiynau gwylio fideos, a oedd 123% yn uwch na'r amcanestyniadau
- 1.3 miliwn oedd y ffigurau gwylio ar YouTube, a oedd 128% yn uwch na'r swm a ragwelwyd, gyda chyfradd gwylio-trwodd o 30% [Troednodyn 11]

[10] "Defnydd" marchnata yw darpariaeth ymgyrchoedd, digwyddiadau, neu brofiadau sy'n ceisio ymgysylltu â chynulleidfaoedd targed penodol a sicrhau rhyngweithiadau go iawn, yn aml gyda nhw fel cyfranogwyr.
[11] Caiff y gyfradd gwylio-trwodd ei chyfrifo ar sail cyfran y defnyddwyr a oedd wedi gwylio'r fideo, naill ai'n gyfan gwbl neu gyfran sylweddol ohoni, o'i chymharu â nifer yr argraffiadau (1.3m allan o 4.6m – ffigurau wedi'u talgrynnu)

- Llwyddodd StackAdapt (platfform hysbysebu aml-sianel) i sicrhau cyfradd gwylio-trwodd o 72%, er gwaethaf niferoedd is na'r disgwyl o argraffiadau

Roedd ymgyrch Croeso Cymru wedi llwyddo i sicrhau'r allbynnau canlynol:

- Llwyddodd yr ymgyrch i sicrhau 17,300 clic (o fewn 1% i'r targed)
- Roedd y Cyfraddau Clicio-Trwodd wedi perfformio'n well na'r disgwyliadau ar draws pob marchnad, gan godi 117%[Troednodyn 12]
- Llwyddwyd i sicrhau'r Cyfraddau Clicio-Trwodd uchaf yn yr Almaen, sef 2.35%
- Cynulleidfaoedd "lookalike" oedd yn debyg i ymwelwyr blaenorol â'r wefan oedd yn gyfrifol am fwyafrif y traffig i'r wefan, gan gynhyrchu dros hanner cyfanswm y cliciau [Troednodyn 13]

### 3.2.2. Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyswllt â'r Cyfryngau

Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda phartneriaid i ymgysylltu â sefydliadau yn y cyfryngau a darlledwyr, gan drefnu 26 o gyfweliadau ar gyfer Lleisiau Cymru a Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Cynhyrchwyd pecynnau cyfryngau amlieithog yn Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg i gynorthwyo'r broses o ymgysylltu â sefydliadau cyfryngau rhyngwladol. Fel y nodwyd yn y data a gyflwynwyd yn yr adran flaenorol, llwyddwyd i sicrhau sylw yn y cyfryngau domestig a rhyngwladol, gyda chymorth gwaith staff asiantaeth CC a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

### 3.2.3. Gweithgareddau yn ystod digwyddiadau a hysbysebu awyr agored

Roedd yr ymgyrch hysbysebu awyr agored a digwyddiadau yn cynnwys gosod hysbysebion ar 57 o sgriniau digidol ar draws Zurich, St Gallen a Lucerne (y dinasoedd lle y cynhaliwyd gemau tîm Cymru, a Zurich fel canolfan drafnidiaeth mawr), ynghyd â deunyddiau wedi'u brandio mewn ardaloedd cefnogwyr, megis Bws Cymru Wales, a hysbysebion mewn canolfannau trafnidiaeth mawr. Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod bws Cymru Wales wedi cynnig 'hunaniaeth weledol gref' ac ystyriwyd ei bod yn allweddol wrth gynorthwyo profiadau'r cefnogwyr megis y 'daith gerdded i gefnogwyr' fwyaf yn hanes Ewros y Menywod (ar yr adeg honno), a oedd yn cynnwys 8,000 o gefnogwyr Cymru ac o'r Iseldiroedd yn cyd-gerdded o ganol dinas Lucerne i'r stadiwm. Yn ôl rhai rhanddeiliaid, roedd y gweithgareddau hyn wedi cynnig ysgogiad a ffocws pellach ar gyfer y gweithgareddau a gynhaliwyd yn y Swistir.

---

[12] Mae'r Gyfradd Clicio-Trwodd yn mesur canran y bobl sy'n clicio ar ddolen, hysbyseb neu neges e-bost ar ôl ei gweld.

[13] Ystyr y cynulleidfaoedd hyn yn debyg i rai blaenorol, hynny yw cynulleidfaoedd sy'n rhannu nodweddion, ymddygiad neu ddemograffeg tebyg â'r rhai sydd wedi ymweld â gwefan yn flaenorol.

> “Roedd Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Chymdeithas Bêl-droed yr Iseldiroedd wedi trefnu taith gerdded wych i’r cefnogwyr, a bu’r profiad yn y stadia i gefnogwyr yn gadarnhaol iawn.” Cyfweliad gyda rhanddeiliad

### 3.2.4. Ymgyrch Ddigidol y Talwyd Amdani

Bu gweithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol cyn, yn ystod ac ar ôl y bencampwriaeth. Mae’r data a gyflwynir yn yr adrannau uchod yn cynnig syniad o gyrhaeddiad y gweithgareddau hyn; mae’n dangos bod yr holl DPAion ymwybyddiaeth ar gyfer yr ymgyrch digidol wedi perfformio’n well na’r rhagolygon, gan ddangos lefelau ymgysylltu da gyda’r cynulleidfaoedd targed. Mae hyn yn awgrymu bod yr ymgyrchoedd digidol wedi gwella pa mor weladwy oedd Cymru ar draws y prif farchnadoedd Ewropeaidd yn ystod y bencampwriaeth.

Mae’r data yn dangos y bu lefelau ymgysylltu uchel ar draws pob platfform. Gwelwyd lefel ymgysylltu arbennig o uchel ar YouTube, a oedd 427% yn uwch na’r targed. Dangosodd data Croeso Cymru lefel dda o draffig i’r wefan yn ystod y bencampwriaeth. Er gwaethaf nifer is o argraffiadau na’r disgwyl, llwyddwyd i gwrdd â thargedau o ran cliciau oherwydd Cyfraddau Clicio Trwodd uchel, sef canran y rhai a welodd yr hysbysebion ac a gliciodd arnynt.

Amlinellodd adroddiad marchnata Llywodraeth Cymru sawl her a wynebwyd wrth gyflwyno’r ymgyrchoedd digidol. Nododd yr adroddiad bod costau hysbysebu yn ddrytach mewn rhai marchnadoedd, sef y Swistir yn fwyaf nodedig, a oedd wedi cyfyngu ar y cyrhaeddiad â’r gynulleidfa a sicrhawyd trwy’r ymgyrch. Yn ogystal, nododd yr adroddiad bod ffenestr fer yr ymgyrch – o ganlyniad i natur pencampwriaeth pêl-droed – wedi cyfyngu ar y cyfleoedd i brofi cynnwys creadigol deunydd marchnata cyn ei ddefnyddio a datblygu unrhyw gynnwys mewn fformatau ychwanegol.

## 3.3. Proffil, argraffiadau a pha mor weladwy oedd Cymru

Ar draws holl adroddiadau cwblhau PSF, un o brif lwyddiannau’r prosiectau a gofnodwyd oedd y cynnydd o ran pa mor weladwy oedd Cymru yn genedlaethol a rhyngwladol. Fel y nodwyd yn flaenorol gan y perfformiad cryf yn erbyn DPAion yn ymwneud â chyrhaeddiad ac ymgysylltu â’r cyfryngau, roedd gweithgareddau PSF wedi denu sylw yn y cyfryngau cenedlaethol a rhyngwladol, trwy gyfrwng safleoedd newyddion a chyfryngau cymdeithasol. Roedd yr holl randdeiliaid ac arweinwyr PSF a gyfwelwyd yn credu hefyd bod y gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cynyddu proffil a pha mor weladwy oedd Cymru ar y llwyfan rhyngwladol yn ystod ac ar ôl Ewros y Menywod. Roedd cynrychiolwyr sefydliadau PSF o’r farn bod y gweithgareddau yn ennyn ymdeimlad o falchder cenedlaethol ymhlith cynulleidfaoedd yng Nghymru ac mewn gwledydd tramor, trwy eu pwyslais ar weithgareddau dwyieithog a hunaniaeth a gwerthoedd Cymru.

> “Roedd cefnogwyr Cymru yn arbennig, bu cryn dipyn o ymgysylltu gyda’r bobl yn y Swistir a chyfleoedd da i gyfathrebu. Roedd yr awyrgylch wir yn anhygoel, ac roedd pobl y Swistir wedi dwli ar hynny – roeddent yn canu trwy gydol yr amser,

> dim ond datblygu hynny y gall llywodraethau ei wneud, ni allant ei drefnu. Roedd digwyddiad S4C yn wych, gan ddangos yr hyn sydd gan Gymru i'w gynnig, yn yr un modd ag ardaloedd y cefnogwyr." Rhanddeiliad

Mae tystiolaeth a gasglwyd o'r adroddiadau cwblhau PSF yn awgrymu bod nifer o brosiectau wedi cael effaith ddiwylliannol nodedig, a nodir sawl un o'r enghreifftiau hyn yn hwyrach yn y bennod hon. Roedd nifer o brosiectau yn canolbwyntio ar weithgareddau a oedd yn hyrwyddo ac yn dathlu hunaniaeth Cymru a chwaraeon i fenywod trwy gyfrwng dulliau creadigol ac artistig. Roedd y rhain wedi cyfrannu at bresenoldeb Cymreig arbennig trwy gydol y bencampwriaeth. Roedd rhanddeiliaid ac arweinwyr prosiect PSF a gyfwelwyd o'r farn eu bod wedi cynyddu pa mor weladwy oedd Cymru a chwaraeon menywod ar lefel ryngwladol, gan hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru ar yr un pryd.

> "Roedd Cymru wedi cyrraedd gyda grym mor anhygoel, ond nid yn unig i ddathlu llwyddiant ym maes chwaraeon, ond fe ddaethom â'n hiaith, ein diwylliant a'n cerddoriaeth. Ac mae'n rhywbeth yr wyf wedi ei sylweddoli ers hynny, nad oedd unrhyw wlad arall wedi meddwl gwneud y fath beth. Mae hyn yn rhywbeth hollol unigryw y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud, pan fyddant yn cyfuno chwaraeon, ond pêl-droed yn arbennig, a diwylliant." Rhanddeiliad

Fel yr amlygwyd yn gynharach yn yr adran hon, roedd yr ymgyrch farchnata wedi sicrhau canlyniadau arwyddocaol, a oedd yn cyd-fynd ag amcanion diwylliannol a rhyngwladol Llywodraeth Cymru. Mae'r canfyddiadau yn dangos bod hyn wedi cyfrannu at godi proffil rhyngwladol Cymru, gan bwysleisio ei hunaniaeth fel cenedl gynhwysol, creadigol ac sy'n cael ei hysgogi gan werthoedd. Roedd y Datganiad Gwerthoedd – a gymeradwywyd gan bartneriaid Tîm Cymru – wedi atgyfnerthu ymrwymiad Cymru i gydraddoldeb, cyfiawnder a grymuso menywod, a nododd rhai rhanddeiliaid bod hyn wedi taro tant yn gryf yn y cyfryngau rhyngwladol ac yn ystod ymgysylltiadau.

> "Yn gyffredinol, roedd digwyddiadau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos pa mor ymroddedig yr oedd Cymru i Ewros y Menywod. Roedd sawl gwlad (gan gynnwys y rhan fwyaf o'r rhai mawr) heb wneud unrhyw beth i'w cefnogwyr e.e. ardaloedd cefnogwyr, cyngherddau, a bu hyn yn gadarnhaol i ddelwedd Cymru fel cenedl." Rhanddeiliad

### 3.3.1. Ymweliadau gweinidogol a gweithgareddau ymgysylltu rhyngwladol eraill

Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod yr ymweliadau gweinidogol â'r Swistir yn ystod y bencampwriaeth wedi cynyddu statws Cymru a pha mor weladwy oedd hi, er bod rhai wedi mynegi siom nad oedd presenoldeb gweinidogol yn y tair gêm. Amlygodd rhanddeiliaid bwysigrwydd y gweithgareddau hyn wrth hyrwyddo Cymru ar lefel ryngwladol, ac roedd sawl un o'r farn ei fod wedi cynorthwyo ymgysylltu arbennig o effeithiol ar lefel ddwyochrol gyda'r Swistir. Adroddwyd bod yr ymweliadau wedi cynorthwyo gwaith ymgysylltu da gyda chantonau'r Swistir a chyfleoedd i drafod mewnfuddsoddiad, a rhannu data ar gyfer teithiau cyfnewid ieithyddol, addysgol ac i bobl ifanc yn y dyfodol.

> "Mae'r ymweliadau gweinidogol hyn yn hollbwysig, pan fyddwch yn hyrwyddo'r wlad ym myd busnes ac ar gyfer gwneud penderfyniadau, mae angen y Prif Weinidog arnoch, nid swyddogion, waeth pa mor uchel ydynt o ran eu statws. Mae'n hanfodol ar gyfer y perthnasoedd hirdymor yr ydych yn ceisio eu meithrin, rydych yn buddsoddi nawr ar gyfer y dyfodol. Gyda gweinidogion, gallwch gael sgyrsiau ystyrlon – mae wir yn cael effaith o ran denu buddsoddwyr newydd." Rhanddeiliad

Datblygwyd partneriaethau cynaliadwy a chynhaliwyd digwyddiadau diwylliannol dilynol yn y Swistir e.e. dathliad o Richard Burton a pherfformiad o gyfansoddiadau Morfydd Llwyn Owen mewn gŵyl cerddoriaeth glasurol. Nododd un rhanddeiliad bod potensial am deithiau cyfnewid pellach ar lefel fwy gwleidyddol ar sail cyfarfodydd gweinidogol, er enghraifft, gan rannu dirnadaeth a pholisi sy'n ymwneud â thrais domestig a materion diwylliannol o ran rhywedd.

Nodwyd hefyd bod Llywydd UEFA wedi ymweld â Chymru ym mis Hydref cyn lansiad swyddogol pencampwriaeth yr Ewros 2028 yn Llundain, ac adroddwyd bod y partneriaethau rhwng CBDC, Llywodraeth Cymru a'r Senedd wedi gwneud argraff dda arnynt. Amlygodd rhanddeiliaid y cyfleoedd i ddatblygu'r ymgysylltu rhyngwladol hwn trwy gyfrwng ceisiadau yn y dyfodol i gynnal Gêm Derfynol Cynghrair y Pencampwyr i Fenywod a Chwpan y Byd i Fenywod 2035 (ar draws y DU). Mae Cymru hefyd yn gwneud cais i gynnal cynhadledd Parch Menywod UEFA yn 2027, a fydd yn ystyried cynaliadwyedd, cynhwysiant ac amrywiaeth a hawliau dynol.

> "Estynnwyd gwahoddiad i Gymru a Gwlad Pwyl roi cyflwyniadau arbennig gan eu bod yn ymddangos mewn pencampwriaeth mawr i fenywod am y tro cyntaf. Roedd hi'n amlwg bod ac amrywiaeth y digwyddiadau a pha mor weladwy yr oeddent (e.e. y digwyddiad S4C lle'r oedd enwau mawr o fyd busnes a chwaraeon yn bresennol) wedi gwneud argraff ar UEFA." Rhanddeiliad

## 3.4. Cyfranogi ac ymgysylltu

Un o'r cyflawniadau arwyddocaol o ran gweithgareddau Ewros y Menywod oedd y cynnydd yn y cyfleoedd i fenywod a merched ymgysylltu â chwaraeon, diwylliant a bywyd cymunedol. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau PSF mewn cymunedau ar draws Cymru, a oedd yn dathlu ac yn annog cyfranogiad mewn chwaraeon, mewn ffordd gynhwysol, gan sicrhau yn benodol bod merched, menywod a'r rhai o gefndiroedd amrywiol neu wedi eu tangynrychioli, yn cael y cyfle i gymryd rhan. Roedd rhai prosiectau wedi creu'r cyfle cyntaf o'i fath yn eu cymunedau ar draws Cymru, yn unol â'r canlyniadau a ddymunwyd i'r prosiectau PSF i gynorthwyo cyfranogiad ac ymgysylltu trwy chwaraeon a'r celfyddydau, yn ogystal â chynnig y cyfleoedd i ddatblygu rhwydweithiau sefydliadol newydd.

> "Roedd rhai prosiectau yn canolbwyntio ar grwpiau sy'n cael eu tan-gynrychioli, ac roeddem yn croesawu hynny. Roedd hi'n dda cyfarfod pobl newydd, gweithio gyda sefydliadau newydd a dysgu gan y rhai a roddodd lais i leisiau newydd o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Roedd y prosiectau hyn yn cydnabod

> pwysigrwydd gwneud pethau gartref yn ogystal ag yn rhyngwladol." Arweinydd prosiect PSF

> "Roedd murlun y maes chwarae (Jess Fishlock) wir wedi cael effaith, ac roedd cyfuno chwaraeon a'r celfyddydau wedi sicrhau ymgysylltiad gwych o'r gymuned. Ni fyddem wedi eu cyrraedd pe baem wedi gwneud y gwaith allan yn y Swistir yn unig." Arweinydd prosiect PSF

Mae presenoldeb modelau rôl benywaidd cadarnhaol ym maes chwaraeon a diwylliant wedi cael effaith hefyd, a modelau rôl yn arbennig, gan gynnwys hyfforddwyr a dyfarnwyr mewn rhai prosiectau, sydd wedi dod o grwpiau sy'n aml yn cael eu tangynrychioli neu sydd ar y cyrion. Roedd rhai arweinwyr prosiect PSF a rhanddeiliaid ehangach o'r farn bod yr ymdeimlad hwn o rymuso yn cynorthwyo ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ym maes chwaraeon a diwylliant, gan sicrhau mynediad a chynrychiolaeth. Gwelwyd enghreifftiau o hyder, uchelgais, sgiliau, lles ac ymdeimlad o berthyn yn cynyddu ymhlith cyfranogwyr gweithgareddau ar draws rhai prosiectau PSF, a oedd yn rhoi mynediad a chyfranogiad wrth wraidd cynllun eu prosiect.

> "Roedd menywod a gymerodd ran yn ein rhaglenni yn profi canlyniadau datblygiad personol arwyddocaol, gan gynnwys mwy o hyder, canlyniadau cyflogaeth, dyrchafiadau, a gwelliant o ran eu lles. Roedd rhai wedi ailgydio yn eu perthynas gyda chwaraeon ar ôl cael profiadau anodd neu drawmatig." Arweinydd prosiect PSF

Mae rhai enghreifftiau penodol pellach o'r effeithiau hyn yn cynnwys:

- Roedd FFSC wedi ymgysylltu â dros 170 o ferched 8-18 oed mewn sesiynau pêl-droed, sesiynau ysgol, gwersylloedd, nosweithiau ieuenctid a phartïon gwylio strwythuredig, a ddarparwyd mewn mannau diogel ac yr oeddent yn cynnwys ymwybyddiaeth ddiwylliannol, i ferched yn unig, gan roi sylw i un o'r prif rwystrau sy'n atal cyfranogiad parhaus
- Roedd Actif Gogledd Cymru wedi darparu gwyliau a fynychwyd gan dros 1,780, gan gynnwys lefelau cyfranogi uchel ymhlith menywod a chyrhaeddiad i mewn i gymunedau difreintiedig
- Ymgysylltodd Clybiau Bechgyn a Merched Cymru â 1,005 o fenywod a merched at ei gilydd yn ystod digwyddiadau, gan gynnwys 562 o ferched mewn 11 o ddiwrnodau Gweithgareddau i Ferched, a 130 o blant sydd ag anableddau mewn gŵyl bêl-droed gynhwysol
- Mae sesiynau menywod wythnosol Pêl-droed Stryd Cymru wedi cael eu hailstrwythuro o ddau i dri adran, gan adlewyrchu'r twf mewn cyfranogiad menywod mewn pêl-droed
- Dangosodd Prifysgol Caerfaddon a Fforwm Ieuenctid Pafiliwn Grange bwysigrwydd cynrychiolaeth, wrth i hyfforddwyr ddarparu sesiynau i fenywod Mwslimaidd ifanc a'r rhai yn eu harddegau

Fel y nodwyd yn flaenorol, gall ymyriadau diwylliannol sy'n gysylltiedig â digwyddiadau chwaraeon gael effeithiau pwerus ar gynulleidfaoedd yng Nghymru ac mewn gwledydd tramor. Nododd arweinwyr prosiectau PSF bod gweithgareddau Ewros y menywod wedi bod yn fuddiol i'r artistiaid a oedd yn darparu gweithgareddau neu'n creu'r gwaith celf hefyd. Ystyriwyd bod cael profiadau rhyngwladol strwythuredig a oedd yn canolbwyntio ar fenywod, ac am dâl, i artistiaid Cymreig y gallent wynebu rhwystrau ariannol wrth weithio dramor fel arall, yn rhywbeth gwerthfawr iawn. Nododd un partner PSF bod rhoi cerddorion benywaidd wrth wraidd presenoldeb diwylliannol Cymru yn ystod y bencampwriaeth wedi galluogi datblygiad proffesiynol ar gyfer yr artistiaid, sylw ac mewn rhai achosion, cynigion i berfformio mewn gwlad dramor yn y dyfodol.

### 3.5. Partneriaethau

Yn aml, darparwyd y prosiectau PSF mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mewn cymunedau lleol, ar lefel leol a rhyngwladol. Roedd hyn yn cynnwys cydweithio traws-sector a oedd yn cynnwys y celfyddydau, gwasanaethau ieuenctid, cyrff chwaraeon, darlledwyr, ysgolion, partneriaid brand, clybiau llawr gwlad a sefydliadau rhyngwladol. Adroddodd rhai sefydliadau a oedd wedi cymryd rhan yn PSF eu bod wedi datblygu partneriaethau a oedd yn bodoli eisoes, a bod y cyllid wedi cynnig cyfleoedd i ymwreiddio'r perthnasoedd hyn ymhellach, a nododd eraill bod partneriaethau newydd sbon wedi datblygu.

Nododd sawl rhanddeiliad bod y mathau o sefydliadau a phartneriaid a oedd ynghlwm a'r gweithgareddau yn un o 'gryfderau'r' rhaglen, gydag amrywiaeth eang o wahanol sefydliadau o ran eu maint a'u ffocws. Ystyriwyd bod gan bartneriaid ethos da a phwyslais ar werthoedd cyffredin, oedd yn briodol o ran y ffordd y dylid cynrychioli Cymru i'r byd.

Nododd prosiectau PSF bod y partneriaethau wedi cryfhau cyrhaeddiad, ymgysylltiad, darpariaeth a gwaddol eu prosiectau. Er enghraifft, roedd rhai sefydliadau wedi gweithio gydag eraill sydd â phlatfformau cyfryngau cymdeithasol mwy o faint i hyrwyddo gweithgareddau. Roedd rhai sefydliadau wedi cydweithio i greu a dosbarthu adnoddau i ysgolion. Roedd gan nifer o brosiectau PSF wyliau aml-bartner neu ddigwyddiadau lansio. Nododd un arweinydd prosiect PSF bod gweithio gyda phartner i fanteisio ar ddigwyddiad a oedd eisoes yn digwydd er mwyn darparu gweithgareddau yn ymwneud â'r Ewros yn ffordd effeithiol o oresgyn heriau o ran amseru a chodi ymwybyddiaeth o weithgareddau, ymgyrch a rhaglen y ddau sefydliad.

Mae'r partneriaethau a ddatblygwyd wedi darparu ystod o effeithiau cadarnhaol yng Nghymru, ac yn rhyngwladol. Er enghraifft, nododd rhai prosiectau PSF bod y cyfle i bartneru gyda sefydliadau rhyngwladol wedi caniatáu iddynt gyfnewid arfer da a datblygu eu cynnig a'u gwaith diwylliannol ymhellach yng Nghymru.

> "Bu'r bartneriaeth gyda (enw'r sefydliad o'r Swistir) yn arbennig o ddylanwadol. Roedd eu profiad nhw o gynorthwyo rhyweddau ar y cyrion mewn cerddoriaeth wedi cynnig ysbrydoliaeth, rhwydweithiau a syniadau ymarferol i ni – er enghraifft, modelau er mwyn creu cyfeiriaduron artistiaid." Arweinydd prosiect PSF

Yn ogystal, mae partneriaethau a ddatblygwyd o fewn ac ar draws Cymru wedi cynorthwyo llwybrau a chynigion chwaraeon a diwylliannol gwell dros y tymor hwy. Mae hyn yn cynnwys partneriaethau cymunedol ac ar lawr gwlad, gyda nifer o enghreifftiau o gyfleoedd newydd, megis sefydlu clybiau pêl-droed, o ganlyniad. Mae'r mentrau newydd hyn wedi cyfrannu at nodau rhaglen ehangach i annog cyfranogiad gweithredol mewn chwaraeon, gwella iechyd a lles a chreu gwaddol o rwydweithiau a chyfleoedd newydd.

# 4. Gwaddol

Mae'r adran hon yn nodi canfyddiadau'r gwerthusiad o ran cynnal gwaddol gweithgareddau Ewros y Menywod a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon menywod a meithrin partneriaethau ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol. Mae'r adran yn gorffen gydag ystyriaeth o'r ffordd y byddai modd alinio gweithgareddau yn y dyfodol gyda nodau polisi ehangach Llywodraeth Cymru.

## 4.1. Cynnal y gwaddol

Roedd rhanddeiliaid yn credu bod gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon menywod, yn ogystal â chael effaith ar artistiaid a sefydliadau. Cyfeiriodd rhanddeiliaid at gyfraniad y prosiectau er mwyn:

- creu mwy o ymwybyddiaeth a brwdfrydedd dros chwaraeon menywod a newid canfyddiadau trwy gyfrwng sesiynau, adnoddau/deunyddiau a digwyddiadau
- datblygu a hyrwyddo modelau rôl cadarnhaol ar draws ystod o feysydd, er enghraifft, trwy gyfrwng hyfforddiant ar gyfer arweinwyr newydd, hyfforddwyr, dyfarnwyr a rolau yn y cyfryngau
- buddsoddi mewn capasiti er mwyn cynyddu cyfranogiad mewn pêl-droed menywod, er enghraifft, cynorthwyo wrth ffurfio timau newydd, sesiynau rheolaidd a chynorthwyo hyfforddwyr a dyfarnwyr benywaidd sydd newydd gymhwyso
- creu cyfleoedd yn y dyfodol i artistiaid gymryd rhan, megis cyfleoedd i gerddorion berfformio
- creu partneriaethau rhwng sefydliadau, yr oeddent wedi cael eu cynnal ers y cwblhawyd y prosiectau

Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid at gyflawni carreg filltir CBDC, sef bod 20,000 o ferched a menywod wedi cofrestru i chwarae pêl-droed yng Nghymru fel gwaddol gadarnhaol y bencampwriaeth; mae'r nifer wedi tyfu o llai na 10,000 yn 2021. Er nad yw'n bosibl mesur effaith gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, roedd canfyddiad ymhlith rhanddeiliaid bod y gweithgareddau, law yn llaw ag effaith ehangach y bencampwriaeth, wedi cyfrannu'n gadarnhaol i gyflawni hyn.

> "Bu hwb enfawr o ran nifer y merched sy'n cymryd rhan ers y bencampwriaeth. Mae wedi cyflawni rôl wrth gyflymu'r ymdrech i gyflawni'r targed o 20,000." Rhanddeiliad

> "Mae wedi normaleiddio gêm y menywod i ddynion a bechgyn hefyd, mae hi llawer mwy gweladwy a mae mwy o fuddsoddiad mewn pêl-droed llawr gwlad, meysydd chwarae ac ystafelloedd newid." Rhanddeiliad

Roedd rhai o’r adroddiadau cwblhau prosiect PSF yn dangos tystiolaeth eu bod wedi creu gwaddol cynaliadwy a llwybrau y dylent gael eu cynnal y tu hwnt i’r gweithgareddau a ariannwyd. Roedd rhai enghreifftiau yn cynnwys:

- prosiect CBDC yn cefnogi 59 o hyfforddwyr benywaidd a 35 o ddyfarnwyr benywaidd newydd, gyda thargedau dros y tymor hwy i ddenu 100 o hyfforddwyr newydd a 150 o ddyfarnwyr newydd, law yn llaw ag ymgysylltu â gweithgareddau academi dyfarnwyr a mentora hyfforddwyr
- Bu Foundation 4 Sports Coaching yn cynorthwyo arweinwyr y dyfodol trwy alluogi 10 o fenywod ifanc i gofrestru ar gyfer cwrs dyfarnu Lefel 1 a phump o fenywod ar gyfer cyrsiau hyfforddi Arweinwyr CBDC
- Bu prosiect Actif Gogledd Cymru yn cynorthwyo 30 o wirfoddolwyr chwaraeon cymunedol, gan gynnwys arweinwyr a hyfforddwyr pêl-droed benywaidd newydd, a fyddai’n gallu arwain a chynorthwyo gweithgareddau cymunedol yn y dyfodol; sefydlodd y prosiect 18 o weithgareddau cymunedol cynaliadwy er mwyn parhau i hyrwyddo ffyrdd o fyw actif y tu hwnt i’r gweithgareddau a ariannwyd; roedd y rhain yn cynnwys sesiynau chwaraeon cymunedol wythnosol newydd, tîm pêl-droed newydd i ferched (Wrecsam Cefn) a llwybrau pêl-droed anabledd
- Roedd gweithgareddau Gŵyl Cymru Alaw Cyf wedi ysbrydoli Clwb Pêl-droed Crymych i ffurfio Tîm Pêl-droed newydd sbon i Fenywod, ac roedd dros 20 o fenywod wedi cofrestru a mynychu
- Yn ogystal â darparu hyfforddiant a chyfleoedd profiad gwaith (gan gynnwys rhai yn y Swistir) i gynorthwyo menywod i fynd i weithio ym maes cynhyrchu rhaglenni teledu chwaraeon, cyfrannodd prosiect mentora S4C at bartneriaethau parhaus rhwng darlledwyr, cwmnïau cynhyrchu yn y cyfryngau a sefydliadau Addysg Uwch i ddarparu hyfforddiant a chymorth i fenywod yn y cyfryngau; rhagwelwyd y byddai pwyslais penodol yn y dyfodol ar rolau megis sylwebaeth pêl-droed, lle y gwelir tangynrychiolaeth ymysg menywod
- roedd rhai prosiectau PSF, gan gynnwys Llenyddiaeth Cymru a’r Cyngor Prydeinig wedi creu adnoddau i ysgolion, y byddai modd i athrawon a dysgwyr eu defnyddio y tu hwnt i gyfnod y prosiectau

Roedd rhai rhanddeiliaid o’r farn bod yr ymgyrch farchnata wedi sicrhau rhai effeithiau, yr oeddent wedi cael eu cynnal ers ei darparu, gan gynnwys:

- ffurfio “Genod Pres”, ensemble pres i fenywod a ariannwyd i fynychu taith gerdded y cefnogwyr i Lucerne; yn dilyn hyn, mae’r band pres wedi perfformio mewn digwyddiadau cenedlaethol ac mae wedi ymddangos mewn cynnwys digidol ar gyfer wales.com, gan ganolbwyntio ar waddol gweithgareddau Ewros y Menywod
- cyfrannu asedau ffisegol a chreadigol i’r Amgueddfa Bêl-droed Genedlaethol yn Wrecsam, gan gynnwys baneri, pethau cofiadwy ac arddangosfeydd ffotograffig, gan

gynorthwyo sicrhau bod yr ymgyrch i'w gweld mewn arddangosiadau diwylliannol a threftadaeth chwaraeon yn y dyfodol

- yr hysbysebu yn creu sylfaen ar gyfer y gwaith o greu brand dros y tymor hwy, trwy wella pa mor weladwy yw Cymru, yn enwedig mewn marchnadoedd Ewropeaidd allweddol megis yr Almaen a Ffrainc

## 4.2. Pwysigrwydd gweithgareddau diwylliannol a'r celfyddydau wrth gynnal effeithiau

Amlygodd nifer o randdeiliaid bwysigrwydd cynnwys celf a diwylliant, modelau rôl a chynrychiolaeth fenywaidd mewn nifer o'r allbynnau a grëwyd gan brosiectau a ariannwyd. Amlygodd rhanddeiliaid y ffaith bod modd i allbynnau gweledol a chreadigol megis fideos, celf, caneuon ac erthyglau gael eu gweld, eu dosbarthu a'u defnyddio gan amrywiaeth o unigolion a sefydliadau, gan ysbrydoli cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon yn y dyfodol.

Er enghraifft, amlygodd rhai rhanddeiliaid waddol cadarnhaol y 23 o furluniau o chwaraewyr Cymru a grëwyd mewn cymunedau lle y cawsant eu geni, trwy gyfrwng prosiect PSF CBDC, gan ysbrydoli cenhedlaeth nesaf y chwaraewyr i fyd pêl-droed ar lawr gwlad o bosibl. Nododd rhanddeiliad arall y gallai'r cyfuniad o farddoniaeth a phêl-droed trwy gyfrwng prosiect PSF Llenyddiaeth Cymru annog pobl ifanc i ysgrifennu ac ymgysylltu â barddoniaeth, gan agor cyfleoedd y tu hwnt i chwaraeon.

## 4.3. Yr effaith ar sefydliadau ac artistiaid a oedd wedi cymryd rhan

Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at effaith y gweithgareddau ar artistiaid a oedd wedi cymryd rhan, megis cerddorion yn cael cynnig cyfleoedd pellach ar gefn eu perfformiadau yn Ewros y Menywod. Cyfeiriodd eraill at brosiectau gwaddol posibl a oedd yn cael eu trafod, megis creu nofel graffig yn seiliedig ar y farddoniaeth a ddatblygwyd trwy gyfrwng prosiect PSF Llenyddiaeth Cymru.

Adroddodd nifer o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd bod y partneriaethau a sefydlwyd gan y gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi sefydlu perthnasoedd proffesiynol gyda sefydliadau yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Mewn rhai achosion, adroddodd rhanddeiliaid bod y perthnasoedd hyn yn cael eu cynnal trwy gyfrwng trafodaeth barhaus am gyfleoedd yn y dyfodol, er y nododd rhai bwysigrwydd cyllid parhaus er mwyn cynnal momentwm a chreu diwylliant o fuddsoddiad dros y tymor hwy mewn chwaraeon a'r celfyddydau.

Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod cymryd rhan yn y gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi helpu i ddatblygu hygrededd ac enw da eu sefydliadau, a allai gynnig budd iddynt wrth iddynt geisio cyllid ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol, yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

# 5. Casgliadau

## 5.1. Cynllunio a rhoi'r gweithgareddau ar waith

Croesawyd y defnydd o'r dull 'Tîm Cymru', sef dwyn partneriaid ynghyd o'r sectorau chwaraeon, y cyfryngau a diwylliant, gan yr holl randdeiliaid. Roedd rhanddeiliaid a fu'n ymwneud â'r gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cwpan y Byd y Dynion 2022 o'r farn bod y model hwn yn cynnig dull effeithiol ar gyfer Ewros y Menywod.

Roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod gwerthoedd a nodau strategol y gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn cyd-fynd yn dda ag ethos Ewros y Menywod, yn enwedig y pwyslais ar gynhwysiant, amrywiaeth a hyrwyddo cyfranogiad menywod mewn chwaraeon.

Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod yr amser byr a oedd ar gael rhwng tîm Cymru yn ennill eu lle yn yr Ewros a dechrau'r bencampwriaeth. Er y byddai rhanddeiliaid wedi hoffi cael mwy o amser i gynllunio a darparu gweithgareddau, roeddent yn teimlo bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymatebol o fewn amserlen heriol, a bod partneriaid priodol wedi bod yn gysylltiedig â'r broses.

Roedd gan randdeiliaid safbwyntiau cadarnhaol mewn perthynas ag ystod y prosiectau a weithredwyd drwy'r PSF, gan amlygu'r ffaith bod nifer o arweinwyr y prosiectau yn fenywod. Er bod partneriaid yn teimlo bod y pwysau o ran amser yn cyfyngu ar faint o gynllunio gweithredol yr oedd modd ei wneud yn ystod y gweithdai PSF cychwynnol, roeddent yn croesawu'r cyfleoedd i gyfarfod, cyflwyno eu cynlluniau cychwynnol, osgoi dyblygu a nodi cyfleoedd cydweithio trwy gyfrwng gweithdai a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru.

Roedd yr holl randdeiliaid a phartneriaid PSF yn croesawu'r cam o sefydlu Grŵp Llywio Rhanddeiliaid fel rhan o gynllun a darpariaeth gyffredinol gweithgareddau Ewros y Menywod. Er hyn, roedd rhai rhanddeiliaid a phartneriaid PSF o'r farn y byddai cydlynu cyfleoedd i gydweithio mewn ffordd fwy ganolog trwy gyfrwng y grŵp hwn wedi cynorthwyo dull mwy cyson a chreadigol er mwyn hwyluso cynllunio a darparu ar draws y PSF.

Dosbarthwyd y calendr gweithgareddau a rannwyd gan Lywodraeth Cymru i'r holl bartneriaid cyn y bencampwriaeth. Fodd bynnag, nid oedd rhai yn cofio gweld yr adnodd canolog hwn ac roedd rhai eraill o'r farn nad oedd yr holl bartneriaid PSF wedi cydweithio i hyrwyddo gwaith ei gilydd ar gyfryngau cymdeithasol.

Roedd rhanddeiliaid yn croesawu'r gweithgareddau marchnata a rhyngwladol a gynlluniwyd ac a ddarparwyd law yn llaw â'r gweithgareddau PSF, gan nodi bod cydlyniant rhwng cynnwys y gwaith hwn a gwaith sefydliadau partner.

## 5.2. Allbynnau, canlyniadau ac effaith

Mae canfyddiadau'n awgrymu bod y gweithgareddau wedi bod yn llwyddiannus wrth gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd, gan gyfrannu at amcanion strategol Llywodraeth Cymru. Ar draws pob prosiect PSF, llwyddwyd i gyflawni 16 DPA lefel rhaglen, a llwyddwyd i fodloni neu ragori ar dargedau ar gyfer yr 16 dangosydd. Roedd holl adroddiadau cwblhau'r partneriaid PSF yn dangos hefyd eu bod wedi cyflawni mwyafrif helaeth eu targedau unigol, gyda rhai prosiectau yn cyflawni eu holl dargedau. Dengys yr adroddiadau PSF hefyd bod partneriaid yn parhau i fonitro cynnydd yn erbyn rhai dangosyddion a'u bod yn rhagweld cyflawniadau pellach ar sail eu gweithgareddau.

Cynhaliwyd cyfanswm o 241 o ddigwyddiadau gan bartneriaid PSF, gyda 33,993 o bobl yn cymryd rhan neu'n mynychu'r rhain. Mi wnaeth cyfanswm o:

- 6,364 o blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a gynhaliwyd gan bartneriaid PSF
- 136,404 o blant/pobl ifanc gymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol
- 1,234 o gyfranogwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi

Yn ogystal, roedd gweithgareddau PSF wedi creu amrywiaeth o fideos, erthyglau a sylw yn y wasg, a gyrhaeddodd ystod eang o gynulleidfaoedd a dros 3.4 miliwn o ymgysylltiadau (e.e. hoffiadau, ymatebion, ail-bostiadau) ar gyfryngau cymdeithasol.

Roedd hysbysebion ar y teledu a ariannwyd trwy gyfrwng yr ymgyrch farchnata wedi cyrraedd 12.2 miliwn o wylwyr ar draws Ffrainc a'r Iseldiroedd, ac roedd ymgyrchoedd digidol wedi sicrhau 8 miliwn o argraffiadau, 3.5 miliwn o sesiynau gwylio fideo a 27,000 o ymweliadau â gwefannau, a oedd yn uwch na'r targedau a osodwyd ar draws pob marchnad.

Llwyddwyd i sicrhau gwaith ymgysylltu pellach trwy gyfrwng gweithgareddau CC, gan gynnwys 26 cyfweliad ar gyfer Lleisiau Cymru a Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Fel rhan o ymgyrch digwyddiadau a "hysbysebu awyr agored" gosodwyd hysbysebion ar 57 o sgriniau digidol ar draws Zurich, St Gallen a Lucerne (y dinasoedd lle y cynhaliwyd gemau a oedd yn cynnwys tîm Cymru), law yn llaw â gweithgareddau wedi'u brandio mewn ardaloedd cefnogwyr, megis Bws Cymru Wales, a hysbysebion mewn canolfannau trafnidiaeth mawr.

Roedd yr ymgyrch farchnata wedi sicrhau canlyniadau arwyddocaol, yr oeddent yn cyd-fynd ag amcanion diwylliannol a rhyngwladol Llywodraeth Cymru. Mae'r canfyddiadau yn dangos bod hyn wedi cyfrannu at godi proffil rhyngwladol Cymru, gan bwysleisio ei hunaniaeth fel cenedl gynhwysol, creadigol ac sy'n cael ei hysgogi gan werthoedd.

Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod yr ymweliadau gweinidogol â'r Swistir yn ystod y bencampwriaeth wedi codi statws a chynyddu pha mor weladwy oedd Cymru, yn enwedig lle cynhaliwyd trafodaethau dwyochrog, er bod rhai wedi mynegi siom na fu presenoldeb gweinidogol yn y tair gêm.

Amlygodd rhanddeiliaid bwysigrwydd y gweithgareddau diplomataidd hyn wrth hyrwyddo Cymru a'i gwerthoedd ar lefel ryngwladol. Roeddent hefyd wedi amlygu'r cyfleoedd i ddatblygu'r ymgysylltu rhyngwladol hwn ymhellach trwy gyfrwng ceisiadau yn y dyfodol i gynnal Gêm Derfynol Cynghrair y Pencampwyr y Menywod a Chwpan y Byd y Menywod yn 2035 (ar draws y DU).

## 5.3. Gwaddol

Roedd rhanddeiliaid yn credu bod y gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon menywod, yn ogystal â chael effaith gadarnhaol – a chynaliadwy o bosibl – ar artistiaid a sefydliadau.

Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid at gyflawni carreg filltir CBDC, sef cael 20,000 o ferched a menywod yn cofrestru i chwarae pêl-droed yng Nghymru fel gwaddol cadarnhaol, a bod y gweithgareddau, law yn llaw ag effaith ehangach y bencampwriaeth, wedi cyfrannu at hyn.

Mae'r gweithgareddau wedi cyfrannu at sicrhau mwy o ymwybyddiaeth a brwdfrydedd dros chwaraeon menywod hefyd, er enghraifft, cynorthwyo wrth ffurfio timau newydd a chael hyfforddwyr a dyfarnwyr benywaidd sydd newydd gymhwyso.

Mae gweithgareddau a ariannwyd wedi sicrhau cyfleoedd yn y dyfodol i artistiaid a oedd wedi cymryd rhan, megis cyfleoedd i gerddorion berfformio ac awduron i archwilio cyhoeddi eu gwaith. Mae partneriaethau cynaliadwy wedi cael eu creu rhwng sefydliadau celfyddydol, diwylliannol a chymunedol, sy'n gallu hyrwyddo ymgysylltu pellach gyda'r celfyddydau a chwaraeon yn y dyfodol. Er hyn, nododd rhai rhanddeiliaid bwysigrwydd cyllid parhaus er mwyn cynnal y momentwm ac er mwyn creu diwylliant o fuddsoddiad dros y tymor hwy mewn chwaraeon a'r celfyddydau.

Mae allbynnau gweledol a chreadigol megis fideos, celf, caneuon ac erthyglau sydd wedi cael eu gweld, eu dosbarthu a'u defnyddio gan amrywiaeth o unigolion a sefydliadau, ac ysbrydoli cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon yn y dyfodol, wedi ychwanegu at y partneriaethau.

Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn bod cymryd rhan yn y gweithgareddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi helpu i ddatblygu hygrededd ac enw da eu sefydliad, a allai gynnig budd iddynt wrth iddynt geisio cyllid ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol. Gallai hyn greu gwaddol yn y dyfodol i rai sefydliadau llai o faint sy'n ymwneud â chyrraedd cynulleidfaoedd amrywiol ac sy'n cael eu tangynrychioli.

## 6. Argymhellion

Ystyriwyd bod cynrychiolaeth weinidogol yng ngemau Ewros y Menywod ac mewn gweithgareddau cysylltiedig wedi cyfrannu at godi statws, a sicrhau bod Cymru'n fwy gweladwy. Felly, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cael cynrychiolaeth weinidogol ym mhob gêm a digwyddiad allweddol yn y dyfodol.

Llwyddodd y rhaglen PSF i gynorthwyo ystod eang ac amrywiol o sefydliadau ac artistiaid, gan gynnig rhagor o gyfleoedd i fenywod, pobl ifanc a grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyfleoedd cyllido ychwanegol er mwyn cynnal y gwaddol a'r momentwm hwn wrth baratoi ar gyfer cynnal Ewros y Dynion 2028 ar y cyd.

Mae'r gweithgareddau marchnata wedi darparu ystod o allbynnau creadigol a gweledol o ansawdd. Gallai'r rhain gael eu defnyddio i ysbrydoli cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol yn y dyfodol, yn ogystal ag ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol i hyrwyddo Cymru ar lefel ryngwladol, er enghraifft Grand Depart y Tour de France yn 2027.

Mae dull 'Tîm Cymru' wedi llwyddo i ddwyn sefydliadau chwaraeon a chelfyddydol ynghyd i gynorthwyo uchelgais ddomestig a rhyngwladol. Mae cyfle pellach yn bodoli i Lywodraeth Cymru ddatblygu ac ymwreiddio'r dull hwn a'i gysylltu â blaenoriaethau eraill megis iechyd a lles ac addysg.

# Atodiad A Crynodeb o brosiectau PSF

Isod, nodir rhestr o’r 16 o brosiectau PSF llwyddiannus.

Actif Gogledd Cymru

14 o wyliau dathlu mewn 6 awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Sesiynau cymunedol 5 wythnos yn canolbwyntio ar gymorth ar gyfer pobl leol trwy uwchsgilio a mentora er mwyn darparu rhaglen o weithgareddau parhaus. Ymgynghoriad gyda chyfranogwyr ynghylch darpariaeth yn y dyfodol. Hyfforddiant i ddatblygu ac uwchsgilio’r gweithlu. Cydweithio gydag 20 o sefydliadau lleol. Cynorthwyo mentrau cymunedol.

Afrowales – Adloniant OTID

Roedd y prif weithgareddau yn cynnwys gweithdai chwaraeon, arddangosiadau dros dro gydag artistiaid lleol, a phrofiad VR er mwyn hyrwyddo Cymru ar lwyfan byd-eang.

Alaw Cyf

Darparodd Gŵyl Cymru 2025 raglen o ddigwyddiadau diwylliannol cymunedol ar hyd a lled y wlad, gan ddathlu a chefnogi ymddangosiad cyntaf Tîm Pêl-droed Cenedlaethol Menywod Cymru yn Ewros y Menywod UEFA 2025. Targedwyd cynulleidfaoedd o bob oed, ond gyda phwyslais ar feithrin gweithgareddau y byddai modd i deuluoedd eu mwynhau, gyda phwyslais ar dalent artistig benywaidd.

Ashoka UK

Ymgysylltodd y prosiect â phobl ifanc (11-25 oed), unigolion dylanwadol o ran sicrhau newidiadau ym maes chwaraeon, ymarferwyr, addysgwyr, clybiau pêl-droed, academïau, a phartneriaid sector ar draws Cymru, y DU, ac Ewrop. Roedd yn cynnwys: tri Hacathon Cydraddoldeb Rhywedd a oedd yn pontio’r cenedlaethau; Glasbrint Gweledigaeth-i-weithredu; Adrodd straeon creadigol ac ymgyrch gyfathrebu.

Fforwm Ieuenctid Prifysgol Caerfaddon a Phafiliwn Grange

Roedd y gweithgareddau’n cynnwys darparu sesiynau pêl-droed mewn ysgolion cynradd lleol ac ym Mhafiliwn Grange, gan hysbysebu timau a hyfforddiant pêl-droed hygyrch, sgrinio gêm gyntaf Cymru yn Ewro 2025 gyda gweithgareddau cysylltiedig, lansio grŵp cefnogwyr Mwyafrif Byd-eang er mwyn mynychu gemau timau menywod a dynion Cymru, a chreu nwyddau ar gyfer cefnogwyr megis hijabs a hetiau bwced. Yn ogystal, cynhaliodd y prosiect ymgyrch hyrwyddo ynghylch cynhwysiant mwyafrif byd-eang ym maes pêl-droed yng Nghymru, gan gydweithio gydag Iby World a Creative Circle.

Clybiau Bechgyn a Merched Cymru

Roedd prosiect “Her Goal” yn fenter ar y cyd rhwng Clybiau Bechgyn a Merched Cymru, Ymddiriedolaeth Adfywio’r Meysydd Glo a Her Cymru. Gan gynnwys pum elfen ddynamig, roedd “Her Goal” yn cynnig partïon cymunedol, diwrnodau gweithgareddau pêl-droed,

digwyddiadau pêl-droed anabledd wedi'u hysgogi gan gynhwysiant, profiadau grymuso hwylio, a theithiau cyfnewid rhyngwladol i bobl ifanc.

British Council

Roedd y prosiect yn darparu cynlluniau gwers hawdd i'w defnyddio, cynnwys digidol a heriau rhyngweithiol er mwyn cefnogi Tîm Cymru i athrawon, gan hyrwyddo grym chwaraeon ar lefel ryngwladol, a chan ganolbwyntio ar fenywod a gyrfaoedd yn arbennig.

Clwb Creative Cymru

Cynhaliodd y prosiect digwyddiadau a oedd yn cynnwys: Hyfforddiant Pêl-droed am Ddim i Ddechreuwyr, digwyddiad blaenllaw 'SQUAD GOALS' ac INDIVISA HQ wedi'i bweru gan adidas. Roedd hefyd wedi comisiynu gwaith celf gan Artistiaid Cymreig i greu crysau pêl-droed cyfyngedig, animeiddiadau 3D pêl-droed benywaidd a baner pêl-droed amgen wedi'i huwchgylchu. Roeddent hefyd wedi cynnal ymgyrch ar gyfryngau cymdeithasol a oedd yn amlygu pêl-droed i fenywod yng Nghymru a thalent creadigol gyda ffotograffiaeth, rîls ac adrodd straeon.

Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC)

Y Rhwydwaith Hyfforddi Menywod – rhoi strategaeth gynhwysfawr ar waith, oedd yn cynnwys creu Rhwydwaith Hyfforddi Menywod penodedig. Ymgyrch Dyfarnwyr Benywaidd – creu llwybr cefnogol a gweladwy i ddyfarnu, gan roi sylw i rwystrau cyffredin fel diffyg hyder a'r dybiaeth nad yw'n llwybr sydd ar gael i fenywod. Rhaglen Ymgysylltu Diwylliannol CBDC – dathlu tîm cenedlaethol Cymru a chelfyddydau, artistiaid a diwylliant bywiog Cymru, gan arddangos cefnogaeth ar gyfer y tîm ar draws cymunedau Cymreig.

Foundation4sportscoaching (FFSC)

Roedd y fenter yn cynnwys gwersylloedd pêl-droed rhywedd-gynhwysol, gweithdai cymunedol, datblygu modelau rôl trwy gyfrwng cyrsiau hyfforddi a dyfarnu wedi'u hachredu gan CBDC, gwyliau pêl-droed cyn y bencampwriaeth, ac ardaloedd cefnogwyr cynhwysol.

Gŵyl y Wal Goch

Cynhyrchwyd ffilm fer, 'Cymru, Culture, Courage' a oedd yn dilyn dwy chwaer o Grangetown yng Nghaerdydd ar y cae chwarae ac oddi ar y cae chwarae, gan adrodd eu stori nhw fel cefnogwyr pêl-droed a'r ddwy ddyfarnwraig Mwslimaidd cyntaf yng Nghymru oedd yn gwisgo hijab. Dangoswyd y ffilm am y tro cyntaf yn Nhrebiwt mewn parti gwylio'r Ewros i fenywod a merched yn unig ar gyfer gêm agoriadol Cymru. Wedi hyn, fe'i dangoswyd mewn partïon gwylio yn Grangetown (ddwywaith) ac yn Abertawe yn Elysium mewn cydweithrediad â Menter Iaith Abertawe.

Llenyddiaeth Cymru

Roedd Sarah McCreadie, bardd adnabyddus a chefnogwraig pêl-droed frwd, wedi teithio gyda'r tîm a chyflwyno 16 cerdd ar fideo. Rhyddhawyd y cynnwys trwy sianelau cyfryngau cymdeithasol Llenyddiaeth Cymru, gyda chyfleoedd i gydweithio gyda Sarah ei hun, S4C, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a walesdotcom, law yn llaw â pherfformiadau byw yng

Ngŵyl Cymru (Bethesda), yr ardal cefnogwyr (Zurich) ac yn Llyfr y Flwyddyn Cymru (Caerdydd). Ymddangosodd hi ar gyfryngau fel Newyddion Sky Sports, BBC Radio Wales a Newyddion S4C.

S4C

Cartref pêl-droed Cymru – yn y Swistir: sefydlodd y prosiect hwn leoliad canolog i bawb ddod ynghyd a mwynhau'r gemau, gan gynnal digwyddiadau i hyrwyddo Cymru. Y bwriad oedd creu hwyl 'yn y fan a'r lle' yn y Swistir i helpu'r tîm, y cefnogwyr, rhanddeiliaid a gwesteion/cynulleidfaoedd oedd yn anghyfarwydd â Chymru i ddathlu ein cenedl.

Rhaglen Mentora 'AmdanHi!': Lansiodd S4C Raglen Mentora 'AmdanHi!' ar y cyd â thalent gwreiddiol S4C, a thrwy weithio gyda'n cysylltiadau yn y sector teledu a thu hwnt. Y bwriad oedd creu ymgyrch a oedd yn codi ymwybyddiaeth o'r sgiliau a'r cyfleoedd yn y sector darlledu chwaraeon, ac yn benodol, cyfleoedd sylwebu i fenywod a menywod ar draws Cymru.

Pêl-droed Stryd Cymru

Cynhaliodd y prosiect dau Bencampwriaeth Pêl-droed Stryd cynhwysol. Sesiynau pêl-droed wythnosol. Cydweithio gyda chlybiau ar lawr gwlad, cyrff llywodraethu a mudiadau cymunedol er mwyn integreiddio cyfranogwyr mewn llwybrau pêl-droed strwythuredig ym mhob lleoliad.

Urdd

Roedd Jamborî yr Ewros yn ddigwyddiad cenedlaethol wnaeth gynnwys plant ysgol ar draws Cymru. Roedd Anthem yr Ewros yn cynnwys artistiaid ifanc a phroffesiynol yn mynd ati i gyfansoddi cân i ysbrydoli'r genedl i gefnogi Cymru. Roedd Gwerin #FelMerch yn arddangos talent gwerin cyfoes merched ifanc o'r Urdd ar y cyd â phrosiect 8yth yn y Swistir. Bu Gŵyl Chwaraeon yr Ewros yn dathlu pêl-droed menywod a diwylliant Cymraeg trwy ail-frandio cystadleuaeth pêl-droed merched genedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth. Cynhaliodd Cenhadon/Gwaddol #FelMerch ymweliad gan genhadon #FelMerch ar gyfer y digwyddiad chwaraeon ac arweinyddiaeth G50 yn y Swistir a chynhadledd genedlaethol undydd #FelMerch yng Nghymru ym mis Hydref 2025.

Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

Roedd y rhaglen yn cynnwys perfformiadau a gweithdai gan artistiaid benywaidd Cymreig yn Lucerne a St Gallen, gan hyrwyddo cyfleoedd i gydweithio gydag artistiaid o'r Swistir. Yng Nghymru, bu'r fenter yn datblygu datganiad Gwerthoedd Diwylliannol, gan bartneru gyda Gŵyl Cymru i gysylltu gweithgareddau cenedlaethol a rhyngwladol, a chreu celf ar ffurf murlun i anrhydeddu Jess Fishlock wrth ymyl cae pêl-droed, a oedd wedi cynnwys pobl ifanc lleol. Roedd ymgyrch ddigidol dan arweiniad Orchard wedi cofnodi cynnwys o Gymru a'r Swistir, i'w ddefnyddio mewn ymgyrchoedd rhyngwladol ac ehangach megis Ewros 2028.